# Blaenoriaethau a chrynodeb o gynllun gwaith Bwrdd Gweithredol y BBC ar gyfer 2011/12

# Datganiad gan yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

Y cynllun gwaith hwn ar gyfer y BBC yw rhifyn cyntaf cyhoeddiad blynyddol newydd. Mae'n crynhoi strategaeth, amcanion a chyllideb amlinellol y BBC ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ynghyd â digwyddiadau unigol nodedig.

Mae cyhoeddi'r cynllun gwaith hwn yn rhan o ymrwymiad y BBC i fod yn agored a thryloyw, i Ymddiriedolaeth y BBC ac i dalwyr ffi'r drwydded. Mae'r ddogfen hefyd yn rhan bwysig o'r ffordd y byddaf i, fel Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol y BBC, ar y cyd â'm cyd-gyfarwyddwyr anweithredol ar Fwrdd Gweithredol y BBC, yn sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei strategaeth a'i hymrwymiadau yn unol â disgwyliadau Ymddiriedolaeth y BBC a thalwyr ffi'r drwydded.

Nid yw'r ddogfen hon yn lasbrint ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Bydd y cynlluniau'n siŵr o newid mewn meysydd penodol gan addasu i wahanol ddigwyddiadau. Fodd bynnag, mae gan y BBC strategaeth glir yn *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* a, gyda setliad ffi'r drwydded ym mis Hydref 2010, mae ganddi fframwaith cyllidebol clir i weithio iddo. Pryd bynnag y bydd ein cynlluniau yn newid, mae'n rhaid iddynt barhau i ganolbwyntio ar gyflawni ein strategaeth, a hynny o fewn ein cyllideb. Bwriedir i'r cynllun gwaith blynyddol gynorthwyo i sicrhau bod ein gwaith o ddydd i ddydd yn cyd-fynd â'n strategaeth hirdymor a'n cyllideb.

Mae aelodau anweithredol Bwrdd Gweithredol y BBC yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol i roi cynnwys y cynllun gwaith hwn ar waith ac rwy'n ei gymeradwyo i Ymddiriedolaeth y BBC.

Marcus Agius
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
BBC

# Cynnwys


1 **Cyflwyniad** .......... 1
2 **Trosolwg strategol o'r flwyddyn** .......... 2
3 **Datblygiadau gwasanaeth nodedig yn 2011/12** .......... 10
4 **Cyllideb y BBC 2011/12** .......... 15
5 **Datganiadau o bolisïau rhaglenni** .......... 22

# 1 Cyflwyniad

Cenhadaeth y BBC yw hysbysu, addysgu a diddanu cynulleidfaoedd gyda rhaglenni a gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n wreiddiol a gwerthfawr. Mae'n genhadaeth sydd gyn bwysiced heddiw ag y bu ar unrhyw adeg yn hanes y BBC.

Ond mae'r amgylchedd y mae'r BBC yn gweithredu ynddo yn parhau i newid ar gyflymder digynsail, wrth i dechnolegau a diwydiannau gydgyfeirio ac wrth i gystadleuaeth ddod o bedwar ban byd. Mae disgwyliadau'r cyhoedd o sefydliadau fel y BBC hefyd yn newid yn gyflym. Mae safonau tryloywder newydd yn cael eu pennu ledled y sector cyhoeddus; mewn hinsawdd economaidd llawn her mae talwyr ffi'r drwydded yn disgwyl i'r BBC ddangos ei bod yn gwario ffi'r drwydded yn ddoeth ar flaenoriaethau y maent yn eu deall ac yn eu cefnogi.

Er mwyn paratoi ar gyfer y dyfodol, mae'n rhaid i'r BBC gynnal trafodaeth agored am ei hun, ei gwerthoedd a'i gweithredoedd. Mae'n rhaid i'r BBC ddarparu gwybodaeth am ei gweithgareddau sydd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol, ond mewn ffordd sy'n gosod y safon ar gyfer bod yn agored, yn atebol ac yn onest. Dyma'n union mae'r cynllun gwaith blynyddol yn ceisio'i wneud.

Ar gais Ymddiriedolaeth y BBC fel rhan o'i chasgliadau terfynol ar Adolygiad Strategaeth y BBC, mae'r cynllun gwaith hwn yn rhan o ymrwymiad y BBC i fod yn fwy atebol ac agored. Mae'n rhoi manylion amcanion y BBC am y flwyddyn (adran 2); unrhyw ddatblygiadau gwasanaeth pwysig neu fuddsoddiadau sy'n hysbys ar hyn o bryd (adran 3), ynghyd â chrynodeb o'r gyllideb (adran 4). Mae hefyd yn cynnwys Datganiadau o Bolisïau Rhaglenni blynyddol y BBC a oedd yn pennu ymrwymiadau rhaglenni y BBC ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod (adran 5).

Roedd 2010 yn flwyddyn bwysig i'r BBC. Mae mwy nag erioed o'n cynulleidfa yn cydnabod ac yn cymeradwyo ansawdd ein gwasanaethau ac mae cyrhaeddiad y cynnyrch teledu, radio ac ar-lein yn dal i dyfu. Hefyd, daeth y BBC i gytundeb â'r Llywodraeth am setliad ffi'r drwydded newydd tan 2017. Rhoi gofynion y setliad hwn ar waith yw her strategol ganolog y BBC yn 2011/12 a dyma fydd ffocws llawer o weithgarwch y Bwrdd Gweithredol eleni. Bydd canlyniadau'r prosiect hwn yn effeithio ar lawer o wasanaethau a gweithgareddau'r BBC ac maent yn debygol o fod yn sylweddol mewn nifer o feysydd. Ond mae'r hyn sydd gan y BBC i'w gynnig yn y bôn - fel darlledwr cyhoeddus annibynnol eang a gyllidir gan bawb ac sy'n atebol i'r cyhoedd, gyda chenhadaeth i hysbysu, addysgu a diddanu pawb gyda gwasanaethau rhad ac am ddim - wedi bod yn hyblyg a chadarn am ddegawdau lawer. Mae'n rhaid i'r BBC fanteisio ar y setliad ffi'r drwydded hwn i weddnewid ei hun a chanolbwyntio ar ansawdd, rhagoriaeth ac uchelgais. Drwy gyflawni hyn, bydd y BBC yn ennyn cefnogaeth y cyhoedd ac yn barod i wynebu dyfodol cwbl ddigidol.

# 2 Trosolwg strategol o'r flwyddyn

Ym mis Rhagfyr 2010, cyhoeddodd Ymddiriedolaeth y BBC ei chasgliadau terfynol ar strategaeth *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* y BBC. Roedd yn nodi pedwar amcan trosfwaol ar gyfer y sefydliad rhwng nawr a 2016:

- cynyddu neilltuolrwydd ac ansawdd ei gynnyrch
- rhoi gwell gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded
- gwneud mwy i wasanaethu'r holl gynulleidfaoedd
- gosod safonau newydd ar gyfer gweithredu agored a thryloyw

Mae Bwrdd Gweithredol y BBC wedi ymrwymo i gyflawni'r amcanion hyn. Bydd angen rhaglen heriol o ad-drefnu sefydliadol a diwylliannol dros gyfnod cymharol hir. Byddant yn cael eu monitro gan amrywiaeth o wahanol fesurau, gan gynnwys ymchwil i'r gynulleidfa, dadansoddi ariannol, archwilio allanol ac asesiad yr Ymddiriedolaeth ei hun.

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi llunio'i amcanion blynyddol ar gyfer staff y BBC i sicrhau bod y sefydliad yn dechrau cyflawni amcanion chwe blynedd yr Ymddiriedolaeth ac er mwyn sicrhau eu bod wrth wraidd yr hyn a wna'r sefydliad yn y flwyddyn sydd i ddod. Maent yn torri llwybr i gyflawni amcanion hirdymor yr Ymddiriedolaeth a byddant yn cynnwys meysydd ffocws gwahanol ar wahanol adegau yn ystod y cyfnod. Eu nod yw bod yn glir a syml, bod modd eu cyflwyno'n hawdd ar wahanol lefelau o fewn y sefydliad a'u bod yn ategu amcanion yr Ymddiriedolaeth drwy ganolbwyntio ar gamau gweithredu ac ymrwymiadau'r tymor byr.

## Gwella ansawdd a neilltuolrwydd

Mae dau ddigwyddiad cofiadwy yn 2010 wedi rhoi cyfle hanesyddol i'r BBC gynllunio ar gyfer ei dyfodol. Mae'r Llywodraeth wedi pennu lefel ac ymrwymiad cyffredinol ffi'r drwydded hyd at 2017, ac mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi cymeradwyo *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, sef strategaeth y Bwrdd Gweithredol. Mae'r cyfleoedd cynllunio yn sgil y digwyddiadau hyn yn cynnwys sawl her, yn bennaf: sut i gyflawni gofyniad i arbed mwy; sut i fanteisio i'r eithaf ar amgylchedd cwbl ddigidol a chydgyfeiriol; a sut i uno staff o gwmpas diben cyffredin a fydd yn eu hysbrydoli i ddarparu'r rhaglenni a gwasanaethau o'r ansawdd uchaf.

Er mwyn ymateb i'r heriau hyn, mae Bwrdd Gweithredol y BBC wedi lansio rhaglen waith dros hanner cyntaf 2011 i ddefnyddio egwyddorion a blaenoriaethau *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, ynghyd â pharamedrau clir o setliad ffi'r drwydded, i greu cynllun ymarferol ac ysbrydoledig ar gyfer y chwe blynedd nesaf. *Delivering Quality First* yw enw'r rhaglen waith hon.

Amcan cyffredinol y gwaith hwn yw sicrhau BBC sy'n:

- Rhoi ansawdd yn gyntaf ym mhopeth a wna
- Gwneud llai o bethau'n well mewn ffyrdd sy'n cynyddu ansawdd, effaith a gwerth a chynorthwyo'r BBC yn ei chyfanrwydd i gynnal ei chyrhaeddiad i gynulleidfaoedd
- Amddiffyn gofod cyhoeddus a rhoi sicrwydd y dylai manteision digidol fod ar gael i bawb
- Gwasanaethu cynulleidfaoedd a buddsoddi mewn talent a chynhyrchu ledled y DU
- Cefnogi'r diwydiannau creadigol ehangach drwy bennu ffiniau clir ar gyfer ei hun drwy fuddsoddi, rhannu technoleg, hyfforddiant a phartneriaethau

- Gwneud i ffi'r drwydded weithio'n galetach drwy ddyrannu adnoddau'n well a gostwng gorbenion ynghyd â gwella cynhyrchiant
- Ymdrechu'n galed i sicrhau bod ei dull o wneud penderfyniadau yn syml, cyflym ac yn hawdd i'w ddefnyddio yn ei holl brosesau a strwythurau.

Bydd yn rhaid cynnwys ymrwymiadau penodol o *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* yn y prosiect hefyd, er enghraifft cynnig erbyn 2013/14 bod 90 ceiniog o bob 'punt y BBC' yn cael eu gwario ar gynnwys o ansawdd uchel sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd; bod gostyngiad o 25% mewn gwariant ar bbc.co.uk a bod y strategaeth Ar-lein newydd yn cael ei rhoi ar waith; bod niferoedd a chyflogau uwch reolwyr yn cael eu gostwng yn unol ag ymrwymiadau'r Ymddiriedolaeth; a bod yr holl wariant yn cael ei reoli a'i ostwng pan fo hynny'n bosibl.

Mae naw ffrwd waith wedi'u sefydlu ar gyfer y prosiect i ateb cwestiynau sy'n ymwneud â dyfodol digidol y BBC; ei chynnyrch newyddiadurol, teledu a radio; ei gweithgareddau ledled y DU; cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol; ei pherthynas â staff, a'i gweithgareddau masnachol.

Mae pob ffrwd waith wedi derbyn tair her: cyfrannu at yr her ariannol ledled y BBC o sicrhau arbedion o 20% erbyn 2016; mynd ati'n gynyddol i gyflawni'r pum blaenoriaeth olygyddol (newyddiaduraeth; gwybodaeth, diwylliant a cherddoriaeth; drama a chomedi o'r DU; plant; digwyddiadau sy'n dod â chymunedau a'r genedl at ei gilydd); a chynyddu ansawdd tra'n cynnal cyrhaeddiad gwasanaethau'r BBC i gynulleidfaoedd.

Mae Bwrdd Gweithredol y BBC yn gobeithio cyflwyno cynigion ffurfiol i Ymddiriedolaeth y BBC yn ystod haf 2011. Disgwylir i gyfnod o ymgynghori cyhoeddus ddilyn hyn, gyda'r casgliadau terfynol yn cael eu gwneud erbyn diwedd 2011.

Mae camau gweithredu eraill yn y maes hwn yn cynnwys gweithredu casgliadau Adolygiadau diweddar Ymddiriedolaeth y BBC: yn benodol ar gyfer BBC One, BBC Two a BBC Four; Radio 3, 4 a 7; a Botwm Coch y BBC. Bydd y strategaeth Ar-lein newydd yn faes ffocws arall. Am fanylion pellach ar y meysydd hyn, ewch i'r datblygiadau gwasanaeth nodedig a'r Datganiadau o Bolisïau Rhaglenni sydd i'w gweld nes ymlaen yn y ddogfen hon.

Mae'r amcanion a'r camau gweithredu sy'n ymwneud â'r pwnc hwn wedi'u cynnwys o dan y pennawd *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* yn amcanion Bwrdd Gweithredol y BBC ar gyfer staff.

## Cynyddu gwerth am arian

Mae gan y BBC ddyletswydd ariannol yn ogystal â dyletswydd gyhoeddus i wneud i bob punt o ffi'r drwydded weithio'n galed dros y bobl sy'n ei thalu. Nid yw gwneud mwy am lai mewn amgylchiadau ariannol caled yn rhywbeth newydd - yn wir ers yr 1990au pan ddechreuodd y BBC symud i fformat digidol, mae wedi bod yn gwneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol i ostwng costau cynnal y BBC o 24% o ffi'r drwydded i tua 12% heddiw (gyda tharged newydd i'w ostwng ymhellach i lai na 10% o 2013/14).

Yn sgil setliad ffi'r drwydded yn 2007, lansiodd y BBC ymgyrch effeithlonrwydd £2 biliwn pellach hyd at 2012/13. Mae eisoes wedi arbed £560 miliwn yn y ddwy flynedd gyntaf ac mae ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o gyflawni arbedion o dros 3% y flwyddyn rhwng 2008/9 a 2012/13. Mae'r arbedion hyn wedi'u hailfuddsoddi mewn rhaglenni a gwasanaethau heb eu hail ar gyfer y cyhoedd; i ddatblygu gwasanaethau fel iPlayer; ac i arloesi mentrau newydd fel cynhyrchu di-dâp.

Mae'r amgylchedd ariannol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf (2011/12 a 2012/13) yn llawer anoddach na'r hyn y rhagwelwyd yn flaenorol. Yn ôl ym mis Medi, i gydnabod yr adegau anodd hyn i dalwyr ffi'r

drwydded, cytunodd y BBC i rewi ffi'r drwydded am ddwy flynedd tan 2012/13. Mae hyn yn golygu bod angen i'r BBC ddod o hyd i £140 miliwn mewn arbedion dros y ddwy flynedd. Mae angen iddi hefyd fuddsoddi £80 miliwn yn ychwanegol y flwyddyn ar gyfartaledd i ymdopi â diffyg ariannol a ragwelir yng Nghynllun Pensiwn y BBC.

Bydd y dull a ddefnyddir i gyflawni'r arbedion hyn yn sicrhau bod y BBC yn parhau i roi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn cynnwys. Bydd arbedion yn cael eu gwneud yn bennaf drwy wella'r ffordd mae'r BBC yn gweithredu, drwy dechnoleg neu drwy ddewisiadau buddsoddi. Bydd y BBC, yn benodol, yn parhau i:

- Ostwng gwariant ar gostau cynnal: er mwyn diogelu cynnwys a gwasanaethau rheng flaen, mae costau cynnal y BBC, gan gynnwys swyddogaethau swyddfa gefn a chymorth fel AD a chyllid, wedi gostwng mwy na'r meysydd cynnwys
- Cynyddu'r gyfran o gyllideb gwasanaeth cyhoeddus y BBC a fuddsoddir mewn creu cynnwys a gostwng y gyfran o'r gyllideb gwasanaeth cyhoeddus a ystyrir yn 'orbenion' i lai na 10% o 2013/14
- Ceisio gostwng ymhellach gostau casglu ffi'r drwydded
- Sicrhau'r refeniw masnachol gorau o fewn y ffiniau clir a bennir gan Ymddiriedolaeth y BBC
- Gwneud llai o bethau'n well mewn meysydd cynnwys, gan sicrhau ei bod yn gwneud hyn heb danseilio ansawdd pan fo hynny'n bosibl
- Gostwng cyflogau uwch reolwyr 25%, gyda gostyngiad o 20% yn niferoedd uwch reolwyr
- Ceisio gostwng costau talent wrth drafod contractau newydd, ar ôl sicrhau arbedion sylweddol eisoes.

Mae amcanion a chamau gweithredu sy'n ymwneud â'r pwnc hwn wedi'u cynnwys o dan y pennawd *Gwneud i Ffi'r Drwydded Weithio'n Galetach* yn amcanion Bwrdd Gweithredol y BBC ar gyfer staff.

## Gwasanaethu pob cynulleidfa

Yn ystod 2011/12, bydd 308 o drosglwyddyddion yn newid i ddigidol (gan ddod â'r cyfanswm i 967 o 1158), gan gynyddu canran poblogaeth y DU mewn ardaloedd digidol yn unig o 27% i 71%. Bydd dros 10.8 miliwn o aelwydydd yn newid i ddigidol yn ystod y cyfnod hwn. Erbyn diwedd 2011, bydd holl ardaloedd Gorllewin Canolbarth Lloegr, Dwyrain Lloegr a Swydd Efrog wedi newid i ddigidol, a bydd yr Alban, fel Cymru, yn wlad cwbl ddigidol.

Mae'r Cynllun Cymorth yn mynd rhagddo'n dda, gyda thri chwarter miliwn o osodiadau wedi'u cwblhau. Mae'r lefelau boddhad yn parhau'n uchel gyda 95% yn rhoi 8 allan o 10 neu fwy i ni a dim ond 0.3% o gwynion am osodiadau. Ond dim ond chwarter ffordd drwy'r newid i ddigidol y mae'r DU o ran poblogaeth a'r her fwyaf yw cynnal ansawdd gwasanaeth cwsmeriaid wrth i'r niferoedd gynyddu. Gwasanaethwyd yr hanner miliwn cyntaf o gwsmeriaid dros gyfnod o dair blynedd ac mae'n debyg y bydd yr hanner miliwn nesaf yn cael eu gwasanaethu mewn cyfnod o naw mis.

Mae'r Cynllun ar ei brysuraf bellach yn rhanbarthau Anglia, Central a STV Central, a fydd i gyd yn newid i ddigidol yn 2011 a lle rhagwelir cyfraddau ymuno o 23% yn Anglia, 22% yn Central a 17% yn STV Central (uwch na chyfartaledd y Cynllun o 17% hyd yma). Mae hefyd wedi dechrau ar ei waith yn Swydd Efrog, sydd hefyd yn newid yn 2011, ac yna bydd yn mynd i'r afael â her Meridian, Llundain, Tyne Tees ac Ulster yn 2012.

Hefyd eleni, bydd y BBC yn cwblhau'r cam cyfredol o gyflwyno Amlbleth Radio Digidol Cenedlaethol y BBC yn raddol gan ddarparu ei wasanaethau rhwydwaith (y targed yw cwblhau erbyn Rhagfyr 2011). Bydd hyn yn ychwanegu 37 gorsaf drosglwyddo arall ledled y DU, gan ddod â'r cyfanswm i 226, a chwblhau ymrwymiad y BBC i'r Ymddiriedolaeth i sicrhau bod o leiaf 90% o boblogaeth y DU yn derbyn y gwasanaeth yn ystod cyfnod y Siarter cyfredol.

Fel rhan o *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, mae'r BBC wedi ymrwymo i wella'i DAB cenedlaethol fel ei fod yn cynnig gwasanaeth sy'n cyfateb i FM ar gyfer holl wasanaethau digidol DU gyfan y BBC cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Mae trafodaethau'n parhau â'r Llywodraeth a radio masnachol, tra bod y gwaith cynllunio ar gyfer hyn yn rhan o'r broses *Delivering Quality First*.

Ar hyn o bryd mae'r BBC yn archwilio sut gallai IPTV gyfoethogi ac ychwanegu gwerth at ei gwasanaethau teledu. Y gobaith yw gwella'r profiad teledu drwy ddod â'r gorau o gynnyrch rhyngweithiol y BBC i'r sgrin deledu ac ehangu profiad ei chynulleidfa o'i sianeli teledu. Rhagwelir y bydd y gwasanaeth Botwm Coch cyfredol yn gwneud cyfraniad allweddol, gan lywio ac arwain pobl i'r profiadau newydd hyn. Mae'r strategaeth ddarlledu gysylltiedig hon yn adeiladu ar waith sy'n cael ei wneud ledled y sefydliad, gan gynnwys polisi syndicetio, gwaith datblygu'r botwm coch, a thrafodaethau parhaus â llwyfannau, dyfeisiau a thrydydd partïon eraill. Mae'r strategaeth yn parhau i gael ei datblygu ond mae'n debyg y bydd yn gweithio o fewn fframweithiau cyfredol y drwydded gwasanaeth.

Mae YouView yn parhau yn flaenoriaeth i'r BBC gydol 2011/12. Ochr yn ochr â hyn, mae'r BBC yn parhau i ddatblygu ei strategaeth darlledu am ddim ehangach, gan gynnwys ei chyfraniad at fentrau ar y cyd fel Freeview a Freesat, gan ddiweddaru ei strategaethau ar gyfer y llwyfannau hyn i adlewyrchu'r datblygiadau diweddaraf ym marchnad deledu'r DU.

Mae amcanion a chamau gweithredu sy'n ymwneud â'r pwnc hwn wedi'u cynnwys o dan y pennawd *Sicrhau Mynediad* yn amcanion Bwrdd Gweithredol y BBC ar gyfer staff.

## Bod yn agored a thryloyw

Mae pedwerydd amcan Ymddiriedolaeth y BBC – i bennu targedau bod yn agored a thryloyw newydd – yn parhau'n amcan ar lefel gorfforaethol a bydd yn cael ei gyflawni'n bennaf gan weithredoedd strategaeth, polisi ac ariannol lefel uchaf y BBC. Er bod cyhoeddi'r cynllun gwaith hwn yn helpu i gyflawni'r pedwerydd amcan hwn, dim ond rhan o ymrwymiad y BBC i fod yn agored ydyw. Ymhlith pethau eraill, bydd y BBC yn:

- Cyhoeddi amrywiaeth llawer ehangach o wybodaeth bob chwarter, gan gynnwys data perfformiad cynulleidfa ar gyfer gwasanaethau'r BBC ac asesiadau ansawdd y gynulleidfa
- Ehangu a symleiddio'r trefniadau cyfredol ar gyfer cyhoeddi cyflogau a chostau uwch reolwyr y BBC
- Cyhoeddi costau talent gan eu rhannu'n ffigurau ar gyfer gwariant cyfanredol yn y bandiau a awgrymwyd gan y Pwyllgor Dethol ar Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

## Cydweithio

Yn ogystal ag adlewyrchu amcanion hirdymor yr Ymddiriedolaeth, mae Bwrdd Gweithredol y BBC wedi pennu amcan ychwanegol i'r sefydliad mewn perthynas â'i gweithredoedd mewnol. Mae'r BBC yn sefydliad cymhleth gyda gweithgareddau ledled y byd a'r DU. Blaenoriaeth allweddol yn y blynyddoedd nesaf fydd symleiddio a rhesymoli'r Gorfforaeth er mwyn i staff allu cydweithio'n fwy

effeithiol ac y gellir sicrhau'r gwerth gorau o gynnyrch y BBC ar draws llwyfan a gwasanaeth. Bydd y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar nifer o feysydd penodol o weithgarwch y BBC.

*BBC North*

Mae BBC North bellach yn adran cynhyrchu cynnwys gydlynol, ac mae'r cynyrchiadau prawf cyntaf wedi'u cynnal ar safle MediaCity. Y flaenoriaeth ar gyfer 2011 yw symud yn ddiogel i Salford, gyda'r mwyafrif helaeth o swyddi yn symud i ogledd Lloegr rhwng Mai a Rhagfyr 2011, gyda'r recriwtio hefyd yn cael ei wneud yn bennaf yn ystod y cyfnod hwn. Symlrwydd a chydweithio fydd dwy o brif flaenoriaethau'r model gweithredu newydd ar gyfer BBC North.

*Cynllunio ar gyfer Llundain 2012*

Bydd 2012 yn flwyddyn bwysig iawn i'r DU a'r BBC. Nid yn unig y bydd y DU yn cynnal Gemau Olympaidd Llundain, gyda'r BBC yn ddeiliaid hawliau'r DU, ond bydd hefyd gyfres o ddigwyddiadau pwysig eraill, gan gynnwys y Jiwbilî Ddiemwnt a Gŵyl 2012. Bydd cynlluniau'r BBC ar gyfer sylw amlgyfrwng cynhwysfawr o'r Gemau Olympaidd yn golygu y bydd holl wasanaethau'r BBC fwy neu lai yn cydweithio (gweler datblygiadau nodedig am fanylion pellach).

*Integreiddio Newyddion a Newyddion Byd-eang*

Yn ystod 2011/12, bydd BBC News a BBC Global News yn dod at ei gilydd fel rhan o'r Grŵp Newyddion. Mae rhaglen weithgarwch ar y gweill ar hyn o bryd i asesu i ba raddau ac ym mha ardaloedd y gellir integreiddio'r gweithgareddau, gan gofio mai un o'r prif ddigwyddiadau fydd symud i Broadcasting House ar ei newydd wedd, ac nid yw hynny'n digwydd tan 2012/13. Er y bydd cyllid yn parhau ar wahân tan 2014/15 o dan delerau setliad ffi'r drwydded, o 2011/12 bydd yr adrannau hyn yn cael eu rheoli gyda'i gilydd a byddwn yn dechrau integreiddio nifer o feysydd gweithredol. Eleni, byddwn yn cytuno ar fodel llywodraethu a sefydliadol manylach yn ystod ac ar ôl 2014/15, gan gynnwys datganiad diwygiedig o gylch gwaith World News a bbc.com/news.

*Fabric / Menter cyfryngau digidol*

Yn 2012 bydd Fabric, amgylchedd cynhyrchu digidol newydd y BBC, yn cael ei gyflwyno'n raddol ledled Cynyrchiadau'r BBC. Bydd yn gweddnewid y broses gynhyrchu drwy ddarparu offer sy'n cysylltu pawb sy'n rhan o'r broses greadigol gan alluogi iddynt gydweithredu â'i gilydd drwy ddefnyddio technoleg ddigidol. Bydd symud i ofod gwaith digidol sy'n cael ei rannu gan bawb yn hybu creadigrwydd a chynyddu gwerth am arian prosesau cynhyrchu. Ynghyd â chyflwyno'r fenter yn raddol yn y sefydliad, mae'r BBC yn pwyso a mesur a ellir defnyddio Fabric yn ehangach ledled sector y cyfryngau.

*Partneriaethau*

Nod y partneriaethau a gynigiwyd ym mis Rhagfyr 2008 oedd archwilio sut y gallai'r BBC ddefnyddio ei maint a sicrhau cyllid i gynorthwyo i gynnal y Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus a sicrhau budd i weddill sector y cyfryngau yn yr hirdymor. Ers hynny, gwelwyd cynnydd amlwg ym mhartneriaethau strategol y BBC, gan gynnwys YouView, Radioplayer, iPlayer Linking, partneriaeth Dinas Bryste (sef Anchor), Media Literacy, Digital Production, partneriaethau golygyddol fel *A History of the World in 100 Objects* a llawer mwy.

Yn 2011, mae'r BBC yn canolbwyntio ar gyflawni cerrig milltir pwysig ar gyfer rhai o'r prosiectau partneriaeth cyfredol, gan barhau i feithrin partneriaethau mewn tri maes allweddol (hyfforddiant, Gofod Cyhoeddus Digidol a phartneriaethau Dinasoedd/Rhanbarthau) a chynllunio ar gyfer sut bydd y BBC yn cyflawni ymrwymiadau partneriaethau newydd y cytunwyd arnynt fel rhan o'r setliad ffi'r drwydded diweddar. Mae meithrin diwylliant o weithio mewn partneriaeth o fewn y sefydliad hefyd

yn thema allweddol ar gyfer y flwyddyn.

**Amcanion Bwrdd Gweithredol y BBC ar gyfer rheolwyr a staff yn 2011/12**

| **Amcan trosfwaol** |
|---|
| **Datblygu a dechrau gweithredu cynllun wedi'i brisio sy'n argyhoeddi i gyflawni *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* o fewn y setliad ffi'r drwydded newydd ('*Delivering Quality First*')**<br>*Cyflwyno cynigion i'r Ymddiriedolaeth erbyn mis Medi 2011fan bellaf* |

| **Rhoi Ansawdd yn Gyntaf** | |
|---|---|
| *Amcan* | *Cam Gweithredu* |
| **Gwella ansawdd a natur unigryw ein hallbwn gyda mwy o'r allbwn yn canolbwyntio ar bum blaenoriaeth olygyddol y BBC, tra'n cynnal cyrhaeddiad**<br>*Mesuryddion Ansawdd a Natur Unigryw (AI a 'ffres a newydd' yn bennaf)* | • Gweithredu casgliadau Adolygiadau Ymddiriedolaeth y BBC o BBC One, BBC Two, BBC Four, Radio 1, 2, 3, 4 a 7, a Botwm Coch y BBC |
| **Gwario llai ar wefan o ansawdd uwch sydd â mwy o ffocws**<br>*Gwella mesurau ansawdd wrth i newidiadau gael eu gwneud* | • Gweithredu'r strategaeth Ar-lein newydd a monitro cynnydd yn y Bwrdd Gweithredol |

| **Gwneud i ffi'r drwydded weithio'n galetach** | |
|---|---|
| *Amcan* | *Cam Gweithredu* |
| **Gwella'r ffordd rydym yn cynnal y BBC a chynyddu'r gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded**<br>*Mesurau gwerth; targedau CI/PPI; targedau SM* | • Dechrau cyrraedd y targed o leihau gorbenion 25%<br>• Gweithredu strategaeth BBC Worldwide, gan gynyddu refeniw rhyngwladol i ddwy ran o dair o'r cyfanswm |

| **Sicrhau Mynediad** | |
|---|---|
| *Amcan* | *Cam Gweithredu* |
| **Bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd drwy ddatblygu prosiectau digidol allweddol**<br>*Cyflawni cerrig milltir y camau gweithredu* | • Lansio YouView yn llwyddiannus a datblygu strategaeth olygyddol ar gyfer IPTV yn gyffredinol<br>• Gweithio gyda'r Llywodraeth a rhanddeiliaid eraill i ddarparu map ffordd ar gyfer radio digidol a band eang |

| **Cydweithio** | |
|---|---|
| *Amcan* | *Cam Gweithredu* |
| **Parhau i ddatblygu prosiectau pwysig (Salford, Wi, 2012, Fabric)**<br>*Mesur yn ôl cerrig milltir cynllunio'r prosiectau* | • Agor BBC North yn swyddogol a rhoi technoleg cynhyrchu digidol ar waith yn llwyddiannus, gan arloesi ffyrdd mwy effeithlon a syml o weithio |
| **Ad-drefnu'r BBC i gyd i sicrhau gwerth am arian a symlrwydd** | • Cynllunio ar gyfer mwy o integreiddio ym maes Newyddion (gartref ac yn fyd-eang) |
| **Gwella'r cyfathrebu a'r ymgysylltu â'r BBC i gyd**<br>*Mesuryddion arolwg staff* | • Ymgysylltu â'r BBC i gyd o ran *Delivering Quality First* |

---

| **Bod yn agored a thryloyw** |
|---|

| | |
|---|---|
| **Parhau yn flaenoriaeth ar lefel gorfforaethol** | • Gweler y camau gweithredu a nodwyd uchod |

# 3 Datblygiadau gwasanaeth nodedig yn 2011/12

Mae'r adran hon yn nodi cynigion ar gyfer gwasanaethau'r BBC sy'n cynrychioli naill ai newid amlwg mewn cynnyrch neu fentrau a allai fod yn bwysig ac a allai olygu bod angen i'r Ymddiriedolaeth eu cymeradwyo. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith bod unrhyw gynigion wedi'u cynnwys yn yr adran hon yn llywio unrhyw asesiad yn y dyfodol o a oes angen i'r Ymddiriedolaeth gymeradwyo'r cynigion. Gallai datblygiadau nodedig nad ydynt wedi'u rhagweld eto i wasanaethau hefyd godi eu pen yn ystod y flwyddyn; bydd Bwrdd Gweithredol y BBC yn cyhoeddi unrhyw gynigion o'r fath yn ddiweddarach yn 2011/12 os oes angen. Gall ymwneud y BBC â thrydydd partïon ar fentrau a gweithgareddau masnachol ar y cyd hefyd arwain at faterion yn codi a chyfleoedd wrth fasnachu nad ydynt yn glir neu wedi'u rhagweld eto neu sy'n fasnachol gyfrinachol.

Mae 2011/12 yn flwyddyn anarferol oherwydd y broses *Delivering Quality First*. Mae'r cynllun hwn yn debygol o argymell nifer o newidiadau i gynnyrch a gwasanaethau'r BBC a allai fod yn nodedig neu'n bwysig; bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach yn y flwyddyn.

## Gweithredu strategaeth newydd ar gyfer BBC Ar-lein

Ym mis Ebrill 2011, bydd y cynllun dwy flynedd i weithredu'r strategaeth newydd ar gyfer BBC Ar-lein yn cael ei lansio. Bydd y gwasanaeth yn cael ei weddnewid yn ystod 2011/12, gan ganolbwyntio ar ddeg gwasanaeth neu 'gynnyrch' i'r gynulleidfa, gan roi gwell eglurder a chydlyniad i brofiad y gynulleidfa: hafan y BBC, Newyddion, Chwaraeon, Teledu ac iPlayer; Chwilio, Tywydd, Radio a Cherddoriaeth, Gwybodaeth a Dysgu, CBBC a CBeebies.

Mae'r deg cynnyrch wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd, gyda phob un wedi cyrraedd pwynt gwahanol, a byddant yn cael eu datblygu gydol 2011/12. Bydd y cynhyrchion Teledu ac iPlayer, Radio a Cherddoriaeth a Gwybodaeth a Dysgu newydd yn cael eu datblygu; bydd yr Hafan a Chwaraeon yn cael eu hadnewyddu'n sylweddol a bydd Newyddion, Chwilio, Tywydd, CBBC a CBeebies yn cael eu gwella'n barhaus.

Bydd y cynnyrch Teledu ac iPlayer newydd yn uno holl ddarpariaeth gyfredol Drama, Adloniant a Chomedi, Teledu, /rhaglenni, /archif ac iPlayer yn brofiad cydlynol y gall cynulleidfaoedd eu canfod, eu mwynhau a rhyngweithio â'u hoff frandiau teledu. Byddwn yn datblygu cynnyrch newydd gydol y flwyddyn yn unol â'r weledigaeth hon.

Bydd y cynnyrch Radio a Cherddoriaeth newydd yn dod â holl safleoedd gorsafoedd radio, digwyddiadau cerddoriaeth a phodlediadau'r BBC ynghyd yn un gwasanaeth cydlynol. Bydd hyn yn integreiddio'r profiad o wrando ar y radio a phrofiadau darganfod cerddoriaeth gyda safleoedd gorsafoedd radio rhyngweithiol iawn sydd â thudalennau ar gyfer rhaglenni, cyfryngau cymdeithasol a chynnwys mwy treiddgar (mynediad i'r uchafbwyntiau, ddoe a heddiw), ynghyd â chynnwys BBC cyffredinol a dolenni allanol. Bydd elfennau o'r weledigaeth hon i'w gweld ar y sgrin gydol ail hanner 2011/12, gyda'r weledigaeth lawn yn cael ei gwireddu'r flwyddyn ganlynol.

Bydd y cynnyrch Gwybodaeth a Dysgu newydd, unigol, yn symleiddio a threfnu cynnwys gwybodaeth a dysgu'r BBC. Bydd elfennau cychwynnol y dull newydd i'w gweld yn ystod 2011/12, gyda'r weledigaeth lawn ar gyfer y cynnyrch newydd i'w gweld y flwyddyn nesaf.

Bydd y gwaith sylweddol o ailwampio'r safle Chwaraeon yn golygu y bydd y broses o we-lywio a'r cynllun yn cyd-fynd â'r safle Newyddion a adnewyddwyd yn ddiweddar. Bydd yn darparu profiad newydd i'r defnyddiwr a phensaernïaeth wybodaeth a fydd yn gosod y sylfeini ar gyfer Llundain 2012.

Bydd y fersiwn nesaf o'r Hafan yn galluogi i ddefnyddwyr archwilio a chyrchu holl arlwy BBC Ar-lein. Bydd Rhifynnau'r Gwledydd yn cael eu cynnig am y tro cyntaf ar yr Hafan, gan alluogi defnyddwyr i deilwra'r cynnyrch yn ôl gwlad.

Ar ôl lansio'r cymhwysiad Newyddion yn 2010/11, byddwn yn datblygu mwy o gymwysiadau yn ystod 2011/12 ar gyfer llwyfannau symudol ac IPTV. Bydd y rhain yn cynnwys Chwaraeon a Theledu ac iPlayer, gan ystyried agweddau ar reoleiddio yn ôl yr angen ac mewn modd priodol.

Yn ogystal â datblygu'r deg cynnyrch, bydd nifer fechan o weithgareddau ledled y BBC yn sicrhau y bydd talwyr ffi'r drwydded yn raddol yn mwynhau profiad gweledol mwy cyson ac o ansawdd uwch, pa bynnag ddyfais y byddant yn ei defnyddio i gyrchu cynnwys y BBC ar y rhyngrwyd. Byddant hefyd yn dod o hyd i ddolenni mwy hygyrch a gwerth chweil rhwng BBC Ar-lein a safleoedd a gwasanaethau eraill ar y we.

## Radio 4 Extra

Mae lansio Radio 4 Extra yn ddigwyddiad cyffrous i gynulleidfaoedd radio'r BBC ac mae'n gonglfaen i'r gwaith sydd ynghlwm wrth ddarparu *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*. Bydd Radio 4 Extra yn ymestyn a darlledu llawer o raglenni mwyaf poblogaidd Radio 4 am y tro cyntaf, tra'n cadw'n driw i wreiddiau Radio 7 fel gorsaf adloniant nad yw'n fyw. Dyma elfennau craidd datblygiad Radio 4 Extra:

- Cysylltiadau golygyddol agosach â Radio 4, gan gynnwys fersiynau estynedig o raglenni wythnosol mwyaf poblogaidd Radio 4 (e.e. *Desert Island Discs, The Now Show*), darlledu rhaglenni am y tro cyntaf (e.e. cyfresi comedi fel *Balham Bash* gan Arthur Smith a *Support Group* gan Sarah Millican), a chynnig cyfleoedd dal i fyny pellach ar gyfer rhaglenni comedi newydd Radio 4
- Rhaglenni digidol yn unig fel y *4 O'Clock Show*, sy'n cynnwys cwisiau, straeon, comedïau a chyfweliadau. Bydd dramâu newydd at ddant pob oedran yn cynnwys *The Silver Sword* a *Chitty Chitty Bang Bang*
- Dyblu ein hymdrech i groeshyrwyddo o Radio 4 gyda'r nod o hybu ymwybyddiaeth a samplu. Byddwn yn gwneud hyn drwy drefnu'n hamserlenni'n well a gwell cydlynu yn ystod tymhorau a fydd yn cael cryn sylw a phen-blwyddi nodedig
- Ail-frandio'r orsaf yn Radio 4 Extra er mwyn cyflymu'r llwyddiant drwy ddefnyddio brand cyfarwydd ac uchel ei barch.

Nod lansio Radio 4 Extra yw ategu ymrwymiad y BBC i radio digidol, cynyddu'r gynulleidfa sy'n gwrando ar radio'r BBC a gwella'r ffordd rydym yn cyflawni ein dibenion cyhoeddus.

Mae Radio 7 wedi llwyddo'n dda iawn i feithrin cynulleidfa ffyddlon ac angerddol o tua miliwn o wrandawyr. Fodd bynnag, mae ymwybyddiaeth gyffredinol isel o'r orsaf yn cyfyngu ar ei photensial[1]. Bydd creu cysylltiadau golygyddol â Radio 4 a chynnal a chroeshyrwyddo'n rheolaidd yn cynyddu ymwybyddiaeth ac annog samplu [2], gan hybu'r nifer sy'n gwrando ar yr orsaf ac ar y BBC yn gyffredinol.

Wrth roi'r datblygiadau hyn ar waith, mae'r BBC yn ymwybodol o'r effaith ar wrandawyr cyfredol y ddwy orsaf ac mae am wneud ei gorau glas i gadw natur unigryw ac elfennau poblogaidd Radio 7.

---

[1] Mae gan Radio 7 ymwybyddiaeth o 17% ymysg y boblogaeth gyffredinol o gymharu â 30% ar gyfer 5Live Sports Extra
[2] Yn ôl yr ymchwil *Driving Digital Listening*

Gan gadw hyn mewn cof, rydym yn croesawu bod Ymddiriedolaeth y BBC wedi cryfhau ymrwymiadau trwydded gwasanaeth Radio 4 Extra fel rhan o'r adolygiad diweddar o'r gwasanaeth[3].

Ailfrandiwyd Radio 7 yn Radio 4 Extra ddechrau mis Ebrill a bydd y gyfres lawn o newidiadau i'r rhaglenni yn cael eu cyflwyno'n raddol yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn monitro effaith y datblygiad hwn ar gynulleidfaoedd cyfredol Radio 7 a Radio 4, gan addasu yn ôl yr angen.

Bydd y datblygiad yn cael ei gyflawni o fewn cyllideb gyfredol y drwydded gwasanaeth. Bydd angen tua £1.5 miliwn i ddatblygu a chomisiynu'r syniadau am raglenni a byddwn yn gwneud hynny drwy ail-flaenoriaethu'r gyllideb gyfredol.

## Llundain 2012

Bydd 2012 yn flwyddyn bwysig yn hanes y DU: un lle bydd llygad y byd ar y BBC mewn ffordd nas gwelwyd o'r blaen. Bydd y DU yn cynnal Gemau Olympaidd Llundain (a'r BBC yw deiliad hawliau'r DU) a hefyd bydd cyfres o ddigwyddiadau pwysig eraill, gan gynnwys y Jiwbilî Ddiemwnt a'r □yl gelfyddydau *Festival 2012*. Dyma gyfle unigryw i'r BBC ddangos ei bod yn ganolog o hyd i fywyd ac mae ati hi y mae pobl yn troi ar gyfer y digwyddiadau mwyaf.

Dyma'r pum amcan ar gyfer y flwyddyn:

- Dod â'r DU ynghyd o gwmpas cyfres o ddigwyddiadau yn 2012 - o'r hyn a ddisgwylir fydd y Jiwbilî Ddiemwnt gyntaf ers 1897, i'r Olympiad Diwylliannol i Daith y Fflam Olympaidd. Dylai fod yn flwyddyn heb ei hail a bydd yn cael ei dathlu ymhob genre: o'r seremonïau mawr a'r achlysuron cenedlaethol i gerddoriaeth, perfformiadau a cherddoriaeth
- Darparu sylw rhagorol i Gemau Olympaidd Llundain fel yr achlysur chwaraeon mwyaf i'w gynnal erioed yn ein gwledydd. Cafodd y s□n ei gosod yn Beijing, ond credwn y gall sgiliau cyflwyno a chrefft y BBC a ddenodd mwy na 45 miliwn o bobl i'r Gemau yn 2008 gael eu defnyddio hyd yn oed yn well ar ein tiroedd ni
- Cynnig gwasanaeth gohebu newyddion amrywiol ac arbenigol gydol y flwyddyn - drwy'r byd, yn genedlaethol ac yn lleol. Dim ond y BBC all gynnig cryfderau newyddion teledu, radio ac ar-lein ar bob lefel o gymunedau'r DU i gynulleidfaoedd ym mhedwar ban byd
- Lledaenu digidol – cefnogi arloesedd a chynnig dewis heb ei ail a chyfle i bersonoleiddio gwasanaethau. 2012 yw'r flwyddyn lle bydd teledu analog yn dod i ben, a bydd technoleg ddigidol yn darparu mwy o gyfleoedd i gynnig yr hyn y mae pobl am ei gael a hynny pan maen nhw am ei gael
- Yn olaf, mae'n rhaid i'r BBC helpu i ddiogelu'r gwaddol ar gyfer y DU ac ar gyfer ei hun drwy ymgysylltu â'r amrywiaeth ehangaf bosibl o gynulleidfaoedd, annog cyfranogiad a chynnal prosiectau sy'n cynnig manteision hirdymor.

Mae 2012 yn gyfle heb ei ail i'r BBC fod wrth galon y digwyddiadau mwyaf yn y DU ers cyn cof ac i ddangos perthnasedd a photensial darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn oes ddigidol. Mae'r BBC yn bwriadu cynnig, am y tro cyntaf, chwaraeon byw o fore gwyn tan nos o bob lleoliad yn y Gemau Olympaidd. Bydd hyd at 24 ffrwd o chwaraeon byw ar gael ar yr un pryd ar-lein, a bydd teledu a dyfeisiau cysylltiedig yn cynnig cyfleoedd newydd i'r gynulleidfa bersonoleiddio eu profiad gwylio.

---

[3] Cynyddu isafswm yr oriau comedi bob wythnos o 50 i 55 awr; cynyddu isafswm yr oriau drama bob wythnos o 50 i 55 awr; sicrhau nad oes mwy na 15 y cant o'r allbwn gydol y flwyddyn yn rhaglenni dal i fyny Radio 4.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried newidiadau i wasanaethau'r BBC fel y gall hyn ddigwydd ac maent yn cynnwys defnyddio lled band tonfedd BBC Parliament ar gyfer y rhaglenni o'r Gemau Olympaidd yn ystod y gemau; darparu ffrwd DAB ychwanegol a fydd yn rhoi sylw i'r Gemau Olympaidd yn ystod y gemau; a ffrydio'r Gemau Olympaidd ar BBC Ar-lein, yn unol â thrwydded gwasanaeth BBC Ar-lein.

Er mwyn cefnogi gwaddol 2012, mae'r prosiect yn cynnal amrywiaeth o raglenni uchelgeisiol. Er enghraifft, bydd y prosiect gefeillio ysgolion, World Class, yn annog miloedd o ysgolion o bob cwr o'r DU i ymuno mewn sgyrsiau byd-eang ag ysgolion tramor ac mae wedi datblygu Partneriaeth Gwerth Cyhoeddus gadarn gyda Chyngor Prydain. Fel rhan o Prentisiaid 2012, bydd hyd at 350 o bobl ifanc lefel mynediad o ystod amrywiol o gefndiroedd yn gweithio gyda'r BBC a thrwy ddysgu ffurfiol yn y coleg.

## Dewisiadau'r Gwledydd BBC One HD

Lansiwyd BBC One HD fel gwasanaeth rhwydwaith yn unig ym mis Tachwedd 2010, gyda golwg ar ychwanegu BBC One Scotland, Wales a Northern Ireland mewn manylder uwch yn y dyfodol. Gan ragdybio y bydd lefelau cyfredol o gynnyrch yn parhau, bwriedir cyflawni'r newidiadau hyn o 2012. Byddai hyn yn galluogi gwylwyr yn y Gwledydd mewn cartrefi manylder uwch i ddefnyddio'r un gwasanaeth mewn manylder uwch ag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd mewn manylder safonol.

Byddai hyn yn creu gwasanaeth BBC One HD mwy datblygedig, sy'n adlewyrchu'r DU yn well. Byddai cynnwys a gwasanaethau'r Gwledydd yn cael lle mwy amlwg mewn cartrefi manylder uwch.

## Archif y BBC – *Journal of Record*

Mae'n debyg mai'r prif ddatblygiad i Strategaeth Archif y BBC yn 2011/12 fydd y *Journal of Record*. Y weledigaeth yn yr hirdymor yw agor yr holl archif newyddion drwy sicrhau bod o leiaf un adroddiad newyddion ar gael o bob diwrnod. Nododd *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* uchelgais y BBC ar gyfer y *Journal of Record*:

> "the definitive and impartial journal of record of the UK as a whole and its engagement with the world: over eighty years of BBC journalism in the form of daily news bulletins, broadcasts and scripts, together with the live broadcasts of key events. This unique and irreplaceable collection would be made available to audiences as a national resource, searchable and available for syndicated use by the BBC's public service partners as well as by schools or other educational institutions."

Er mwyn sicrhau bod adnoddau'r archif hwn ar gael, efallai y bydd yn ofynnol newid y Trwyddedau Gwasanaeth cyfredol. Pan fydd hynny'n bosibl, bydd Bwrdd Gweithredol y BBC yn cyflwyno cynigion i Ymddiriedolaeth y BBC.

Mae'r datblygiadau eraill i'r archif (sydd eisoes wedi'u cymeradwyo) yn cynnwys y canlynol:

- **BBC Four** fydd y gwasanaeth allweddol a fydd yn hyrwyddo mynediad i'r archif teledu. Bydd casgliadau o ddeunydd archif yn cael eu dyfeisio i gyd-fynd â thymhorau a chyfresi darlledu pwysig (megis Cerflunio Prydeinig ym mis Chwefror), gan elwa ar waith marchnata'r tymor ac arbenigedd archifo cyfredol y sianel yn achos rhaglenni sydd wedi hen ennill eu plwyf, fel *Timeshift*. Bydd rhaglenni newydd dethol yn cael eu cynnwys i'w cyhoeddi'n barhaol i gyd-fynd â chynnwys yr archif (gan gynnwys rhaglenni Gwledydd lle'n briodol). Bydd y rhaglenni hyn yn cael eu cyflwyno ar BBC Ar-lein, gyda deunydd cyd-destunol priodol, ochr yn ochr â rhaglenni i fyny'r sianel o fewn y cynnyrch Teledu-iPlayer newydd. I roi'r broses hon ar ei thraed, bydd

y mwyafrif o Gasgliadau Archif cyfredol BBC Ar-lein yn cael eu hailbecynnu o dan frand BBC Four

- **Radio 4** fydd cyrchfan ar-lein allweddol y BBC ar gyfer cyrchu archif sain llafar difrifol. Bydd hyn yn adeiladu ar gryfderau ar yr awyr ac ar-lein cyfredol y rhwydwaith yn y maes hwn, gyda rhaglenni fel *In Our Time* eisoes yn cyhoeddi archifau ar-lein cyflawn. Bydd y BBC yn symud tuag at gyhoeddi'r mwyafrif o raglenni ffeithiol allweddol ar y rhwydwaith yn barhaol, gan adeiladu 'archif ar gyfer y dyfodol' o gynnwys y darllediadau
- Bydd archif **Radio 3** yn cynnwys cyhoeddi'n barhaol raglenni allweddol sy'n ymwneud â cherddoriaeth glasurol mewn cyd-destun, arweiniad i recordiadau masnachol, cerddoriaeth byd a recordiwyd ar leoliad a sylwebaeth ar bynciau'n ymwneud â'r celfyddydau (ond nid perfformiadau cerddoriaeth ffurf-hir)
- I gyd-fynd â'r rhaglenni ffurf-hir a'r casgliadau a gyflwynir gan y tri brand gwasanaeth hyn, bydd portffolio Gwybodaeth a Dysgu BBC Ar-lein yn cynnal archif, y byddwn yn ychwanegu ato, o ddeunydd ffurf-byr (Wildlife Finder ac ati) a ddetholir ar sail ei werth ffeithiol ac addysgol parhaol.

Hefyd, byddwn yn parhau i weithio gyda BBC Worldwide i sicrhau bod strategaethau masnachol y BBC i ryddhau archif yn ymestyn ac yn ategu uchelgeisiau gwasanaeth cyhoeddus y BBC.

# 4 Cyllideb y BBC 2011/12

## Cyflwyniad

Mae dull ariannu'r BBC yn unigryw, sydd felly'n rhoi cyfrifoldebau ariannol sylweddol arno fel sefydliad, yn enwedig:

- sicrhau'r incwm gorau o ffi'r drwydded trwy gasglu ffi'r drwydded yn effeithlon.
- Cydymffurfio â thelerau ei siarter a dyletswyddau eraill i fanteisio ar gyllid o ffynonellau eraill, yn enwedig Worldwide, adran fasnachol y BBC
- Sicrhau gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded trwy flaenoriaethu gwariant y BBC ar y gweithgareddau cywir a chefnogi strategaeth gyffredinol y BBC
- Sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn cael eu cyflawni mor effeithlon â phosibl.

Mae'r adrannau canlynol yn esbonio sut mae'r BBC yn bwriadu cyflawni'r goblygiadau hyn dros y deuddeg mis nesaf.

## Incwm ffi'r drwydded

Ni chyflwynwyd cynnydd o 2% yn ffi'r drwydded ym mis Ebrill 2011, yn unol â'r bwriad gwreiddiol, gan fod y BBC wedi penderfynu rhewi ffi'r drwydded tan 2012/13. O'r herwydd, rhagwelir y bydd incwm ffi'r drwydded yn cynyddu llai nag 1% i £3,698 miliwn yn 2011/12. Daw'r incwm hwn yn bennaf yn sgil 0.65% yn fwy o aelwydydd yn talu ffi'r drwydded, a thrwy gynnal yr achosion o osgoi talu ffi'r drwydded i'r lefel bresennol o 5%.

Mae cyswllt hanesyddol pendant rhwng cyflwr economi'r DU yn gyffredinol a'r ddau ffactor sy'n effeithio ar incwm ffi'r drwydded: cyfradd twf aelwydydd a lefel yr achosion o osgoi talu ffi'r drwydded. Er gwaetha'r disgwyliadau sylweddol y bydd lefelau diweithdra'n codi, mae'r BBC yn bwriadu cynnal yr achosion o osgoi talu ffi'r drwydded i'w lefel bresennol yn 2011/12.

Hefyd, mae'r BBC yn cynhyrchu incwm o'i gweithgareddau masnachu a masnachol (Worldwide, World News, Stiwdios ac Ôl-gynhyrchu a gweithgareddau masnachol eraill).

## Cefnogi'r strategaeth Rhoi Ansawdd yn Gyntaf

Dyma'r gyllideb gyntaf ers cyhoeddi cynigion *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* ym mis Mawrth 2010 a chasgliadau terfynol yr Ymddiriedolaeth yn Rhagfyr 2010. Rydym wedi cynnwys yr egwyddorion hynny wrth flaenoriaethu cyllid ar gyfer y cyfnod hwn, ac er bod cryn dipyn o her ariannol o'n blaenau, mae cyllideb y BBC ar gyfer 2011/12 yn cefnogi cyfeiriad *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*.

Rydym wedi archwilio ac ail-fantoli gwariant y BBC er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau ariannol ychwanegol yn sgil y penderfyniad i beidio â chodi ffi'r drwydded fel y bwriadwyd yn wreiddiol a chostau ychwanegol y diffyg o ran pensiynau. O'r herwydd, rydym wedi gorfod arafu'r cynnydd neu ei wneud yn llai uchelgeisiol mewn rhai meysydd. Rhoddwyd baich pellach ar feysydd nad ydynt yn ymwneud â chynnwys, er mwyn cadw effeithiau'r arbedion ar-awyr i lefelau derbyniol. Hefyd, rhaid ystyried yr arbedion ychwanegol yng nghyd-destun yr holl arbedion sydd eisoes wedi'u cyflwyno yn dilyn y Rhaglen Wella Barhaus, a'r her sy'n wynebu'r BBC dros y ddwy flynedd nesaf wrth iddi gyflawni nifer o brosiectau pwysig (BBC North, Broadcasting House a Llundain 2012)

Mae'r gyllideb hon yn dangos ymrwymiad y BBC i gyflawni ei phum blaenoriaeth olygyddol yn ogystal ag ymrwymiadau eraill i sicrhau mynediad i bawb, gwneud llai o bethau'n well, a sicrhau bod ffi'r drwydded yn gweithio'n galetach. Gan fod angen gwario cryn dipyn o arian ar y prosiectau a'r blaenoriaethau golygyddol hyn yn y tymor byr, mae'r BBC hefyd yn ymrwymo i leihau ei gorbenion, ac yn gallu dangos gostyngiad mewn termau real ar ôl ystyried prosiectau pwysig yn y flwyddyn a chostau cynnal adeiladau newydd yn W1 a Salford. Mae cynlluniau i reoli niferoedd a chyflogau uwch-reolwyr a chostau talentau hefyd ar y trywydd iawn.

Nid yw'r gyllideb hon yn adlewyrchu effaith ariannol *Delivering Quality First*, gan na fydd y cynigion wedi'u cwblhau na'u cymeradwyo tan yn hwyrach yn y flwyddyn. Efallai y bydd angen diweddaru'r gyllideb unwaith y bydd y cynlluniau angenrheidiol wedi'u cymeradwyo, gan ddibynnu pa mor berthnasol fydd y newidiadau i'r ddwy flwyddyn ariannol nesaf.

### Y pum blaenoriaeth olygyddol

Dyma'r blaenoriaethau golygyddol yn gyffredinol:

*1. Sicrhau'r newyddiaduraeth orau yn y byd*

- Newyddiaduraeth fel adran sy'n ysgwyddo'r gyfran leiaf o arbedion ychwanegol
- Parhau i wella newyddion lleol yn y Gwledydd ac yn Lloegr

*2. Ysbrydoli gwybodaeth, cerddoriaeth a'r celfyddydau*

- *Cyllid ychwanegol i gynyddu elfennau unigryw ar deledu*
- Adeiladu ar lwyddiant Radio 4 gyda *A History of the World in 100 Objects*, mae adnoddau pellach wedi'u clustnodi i feithrin partneriaethau pellach

*3. Drama a chomedi uchelgeisiol o'r DU*

- Cynnydd yn nifer y cyfresi drama a chomedi ar BBC Two, er ei fod yn is na'r bwriad gwreiddiol
- Ailfrandio Radio 7 yn Radio 4 Extra

*4. Cynnwys heb ei ail i blant*

- Cynnal CBeebies a CBBC trwy wella'r brandiau cyfredol, llai o ailddarllediadau a datblygu teitlau newydd ac unigryw

*5. Digwyddiadau sy'n dod â chymunedau a'r genedl ynghyd*

- Ymrwymiad ariannol i Lundain 2012, gan gynnwys yr Olympiad Diwylliannol

### Gwneud llai o bethau'n well

Mae'r gyllideb hon yn dangos gostyngiad amlwg yng nghostau'r drwydded gwasanaeth ar-lein, ac mae'r BBC ar y trywydd iawn o ran sicrhau gostyngiad o 25% erbyn 2013/14. Mae cau gwasanaethau BBC Switch a *Blast!* , a'r arbedion perthnasol sy'n gysylltiedig â hynny, wedi'i gynnwys hefyd.

### Sicrhau mynediad

Nod y gyllideb hon yw cefnogi strategaeth ddosbarthu'r BBC a gwneud y gorau o werth sbectrwm y BBC. Mae hefyd yn cynnwys y cynlluniau canlynol:

- Darparu mynediad 'ar alw' i raglenni trwy iPlayer a buddsoddi mewn IPTV

- Mewn cydweithrediad ag Arqiva, ehangu darllediadau teledu digidol daearol pŵer uwch a chwblhau'r broses newid i ddigidol mewn 10.5 miliwn o gartrefi (40% o boblogaeth y DU)
- Cynyddu cyrhaeddiad DAB

### Gosod terfynau

Byddwn yn parhau i weithredu'r gostyngiadau mewn hawliau chwaraeon ac yn prynu llai o raglenni o'r tu allan, a bydd y BBC yn cyflawni ei thargedau gwariant yn y meysydd hyn.

### Gwario ar drwyddedau gwasanaeth

Yn 2011/12 mae'r BBC yn bwriadu gwario £2,459 miliwn ar gynnwys gwasanaethau'r BBC, sy'n llai na'r flwyddyn flaenorol oherwydd natur y prif ddigwyddiadau chwaraeon sy'n cael eu cynnal bob dwy flynedd (yn enwedig y Gemau Olympaidd a Chwpan y Byd, sy'n cynyddu costau'r BBC bob yn ail flwyddyn). Mae gwariant ar wasanaethau'r BBC hefyd yn llai yn sgil ymrwymiad i wario 25% yn llai ar wasanaethau BBC Ar-lein erbyn 2014.

Gwariant wedi'i gyllidebu ar gynnwys uniongyrchol yn ôl trwydded gwasanaeth unigol ar gyfer 2011/12:

| **£m** | **11/12** | | **11/12** |
|---|---|---|---|
| BBC One | 1,102 | Radio 1 | 39 |
| BBC Two | 436 | Radio 2 | 46 |
| BBC Three | 84 | Radio 3 | 38 |
| BBC Four | 52 | Radio 4 | 91 |
| BBC HD | 2 | Radio 5 | 53 |
| BBC Alba | 5 | Radio 5 LX | 2 |
| CBBC | 85 | 1Xtra | 8 |
| CBeebies | 29 | BBC 6 Music | 7 |
| BBC News | 45 | BBC 7 | 5 |
| BBC Parliament | 2 | BBC Asian Network | 9 |
| **Cyfanswm Teledu** | 1,843 | **Cyfanswm Radio Rhwydwaith** | 299 |

| **£m (nodyn)** | **11/12** | | **11/12** |
|---|---|---|---|
| Botwm Coch y BBC | 15 | BBC Radio Lleol | 116 |
| BBC Ar-lein | 120 | BBC Scotland | 22 |
| **Cyfanswm Rhyngweithiol** | 135 | BBC Radio nan Gàidheal | 4 |
| | | BBC Wales | 13 |
| | | BBC Cymru | 11 |
| | | BBC Ulster & Foyle | 16 |
| | | **Cyfanswm Radio'r Gwledydd a'r Rhanbarthau** | 182 |

Dyma'r newidiadau allweddol yn ystod y flwyddyn bresennol:

- Rhagwelir y bydd llai o wario ar BBC One yn 2011/12, sy'n adlewyrchu'r costau ychwanegol yn 2010/11 oherwydd Cwpan y Byd yn Ne Affrica, Gemau'r Gymanwlad ac Etholiad Cyffredinol y DU.
- Mae BBC ar-lein yn adlewyrchu'r rhandal cyntaf o'r 25% o ostyngiad a gymeradwywyd gan Ymddiriedolaeth y BBC.

- Buddsoddiad sylweddol mewn prosiectau seilwaith allweddol yn y tymor byr, fel BBC North, cynhyrchu digidol a Broadcasting House, tra bod costau anuniongyrchol eraill yn gostwng.

### Gwariant arall y BBC

Mae'r costau eraill a gyllidwyd ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys gwario £81m pellach ar gynnwys, nad yw'n benodol i wasanaethau unigol. Bydd yn costio £235m i ddosbarthu gwasanaethau'r BBC.

Mae nifer o gostau seilwaith a chymorth yn cael eu hariannu gan ffi'r drwydded hefyd, gan gynnwys £127m o gostau casglu'r ffi, £180m fel rhan o gostau newid i ddigidol, £179m mewn costau adeiladau, £191m mewn costau technoleg, a £110m tuag at ddiffygion yng nghronfa bensiwn y BBC.

Mae £3,876 miliwn wedi'i gyllidebu ar gyfer cyfanswm gwariant y BBC (mae'r cynnwys yn rhan o hyn) o ffi'r drwydded yn y flwyddyn.

Mae dadansoddiad o holl wariant ffi'r drwydded a ddyrannwyd ar draws trwyddedau gwasanaeth y BBC (h.y. gan gynnwys costau dosbarthu, seilwaith a chymorth) ar gael ar ddiwedd y bennod hon.

### Crynodeb o'r Cyfrif Incwm a Gwariant

| | £m | £m |
|---|---|---|
| **Incwm** | | 3,775 |
| **Gwariant** | | |
| Cyllidebau trwyddedau gwasanaeth | (2,459) | |
| Gwariant arall ar gynnwys | (81) | |
| Cyfanswm y gwariant ar gynnwys | (2,540) | |
| Dosbarthu'r gwasanaeth | (235) | |
| Technoleg | (191) | |
| Eiddo | (179) | |
| Casglu ffi'r drwydded | (127) | |
| Newid i ddigidol | (180) | |
| Diffyg yn y gronfa bensiwn | (110) | |
| Marchnata | (89) | |
| Cynlluniau cymorth | (225) | |
| **Cyfanswm gwariant** | | (3,876) |
| **Diffyg net cyn eitemau eithriadol** | | (101) |

Rheolir gwariant y BBC dros gyfnod ffi'r drwydded, fel y bydd mwy'n cael ei wario mewn rhai blynyddoedd nag eraill. Mae'r diffyg yn y flwyddyn hon yn deillio o'r holl weithgarwch yn ystod y flwyddyn (symud i Salford a W1, paratoi ar gyfer 2012, penllanw'r broses newid i ddigidol), ac yn dilyn gwarged sylweddol yn 2010/11 (yn amodol ar archwiliad).

## Gwneud i Ffi'r Drwydded weithio'n galetach

Mae gan y BBC record dda o gyflwyno arbedion effeithlonrwydd. Dan y fenter Gwerth am Arian, cafwyd £129 miliwn o arbedion blynyddol a pharhaol yng ngwasanaethau cymorth y BBC yn y tair blynedd hyd at 2008.

Yn 2008/09, lansiodd y BBC fenter pum mlynedd o'r enw 'Gwelliant Parhaus' i gyflwyno arbedion effeithlonrwydd blynyddol o 3% y flwyddyn. 2011/12 yw blwyddyn olaf ond un y fenter, ac mae'r BBC yn cyllidebu i sicrhau arbedion effeithlonrwydd blynyddol sy'n gyfystyr â £500 miliwn neu 15% o

gostau 2008/9. Dros y pum mlynedd, rydym yn cyllidebu ar gyfer cyfanswm arbedion effeithlonrwydd o £1,893 miliwn, neu 3.3% bob blwyddyn, sy'n fwy na'r targed a bennwyd o 3.0%.

Bydd 2011/12 yn flwyddyn bwysig arall i'r BBC, gyda dau brosiect adleoli ac ailwampio mawr (i'n pencadlys ar ei newydd wedd yn Broadcasting House, Llundain a chanolfan ddarlledu newydd ar gyfer BBC North yn Salford) bron â'u cwblhau, ac wrth inni baratoi ar gyfer Gemau Olympaidd 2012 a'r Jiwbilî Ddiemwnt. O'r herwydd, mae'r BBC yn rhagweld y bydd cryn dipyn o fuddsoddi tymor byr yn y prosiectau allweddol canlynol: BBC North, Fabric (menter ddigidol y BBC) a Broadcasting House.

Bydd y prosiectau hyn yn golygu y bydd costau eiddo a thechnoleg y BBC yn cynyddu yn y tymor canolig, wrth symud i'r seilwaith newydd a'r arferion gweithredu newydd yn sgil hynny. Rydym yn rhagweld y bydd y costau hyn yn lleihau yn y dyfodol. Fel y nodwyd yn *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, mae Bwrdd Gweithredol y BBC wedi ymrwymo i leihau gorbenion i 10% o'r costau cymwys erbyn 2013/14. I'r perwyl hwn, ac o gofio'r amcanestyniadau chwyddiant uwch o 5% ar gyfer y flwyddyn, bydd costau holl weithgareddau cymorth y BBC (adrannau Strategaeth, Adnoddau Dynol, Cyllid a Chaffael, Marchnata a'r Uned Weithredol) wedi'u cyllidebu'n is yn nhermau nominal yn 2011/12 nag y maent yn 2010/11.

## Gwarged y newid i ddigidol

Yn sgil cyfraddau newid i ddigidol ac arbedion ym maes caffael, mae'r BBC yn rhagweld y bydd gwarged ffi'r drwydded o gymharu â'r costau gwirioneddol yn cynyddu £20m yn 2011/12 i £315m, a delir i'r Trysorlys yn ôl yr amserlen y cytunwyd arni gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

## BBC World Service

Yn unol â'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, bydd costau cynnal BBC World Service a BBC Monitoring yn gostwng o £284 miliwn yn 2010/11 i £276 miliwn yn 2011/12.

Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu effaith gychwynnol y gostyngiadau ariannol i'r World Service a gyhoeddwyd yn adolygiad cynhwysfawr o wariant y Llywodraeth, sy'n cynnwys y newidiadau canlynol:

- Cau gwasanaethau mewn pum iaith: Albaneg, Macedoneg, Portiwgaleg ar gyfer Affrica a Serbeg, yn ogystal â Saesneg ar gyfer gwasanaeth rhanbarthol y Caribî
- Terfynu rhaglenni radio mewn saith iaith, a chanolbwyntio'n hytrach ar gynnwys a dosbarthu'r cyfryngau newydd. Maent yn cynnwys: Azeri, Tsieinëeg Mandarin (noder – mae rhaglenni radio Cantoneg yn parhau), Rwsieg (bydd rhai rhaglenni ar-lein yn unig), Sbaeneg ar gyfer Ciwba, Twrceg, Fietnameg, ac Wcreineg
- Llai o ddosbarthiad tonfedd fer a thonfedd ganolig
- Bydd amserlen symlach i wasanaethau Saesneg y World Service, a bydd rhai rhaglenni fel Europe Today a Politics UK yn cael eu digomisiynu

## Prif fygythiadau cyllidebol

Mae'r amgylchiadau economaidd presennol yn peri bygythiad i incwm a chostau'r BBC. O ran incwm, mae'r achosion o osgoi talu ffi'r drwydded yn fygythiad sylweddol, ond mae Bwrdd Gweithredol y BBC yn credu bod modd cyrraedd y targed cyllidebol o sicrhau bod niferoedd yr achosion hyn yn parhau'n sefydlog.

Mae'r rhagolygon chwyddiant ar gyfer y tymor byr hefyd yn bygwth holl gostau'r BBC, er bod elfennau sylweddol o wariant y BBC eisoes wedi'u pennu ar gyfer y flwyddyn. Mae'r bygythiadau mwyaf yn berthnasol i'r contractau mawr hynny sydd â chysylltiad ffurfiol ag unrhyw symud yn y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI). Yn gyffredinol, mae Bwrdd Gweithredol y BBC yn credu bod costau'r BBC yn ddigon hyblyg i ymdopi â chostau ychwanegol, cyhyd ag y bo'r RPI yn parhau o fewn rhagolygon y diwydiant.

## Atodiad - gwariant PSB yn ôl trwydded gwasanaeth

Mae trwyddedau gwasanaeth yn dangos costau darparu'r gwasanaeth perthnasol o safbwynt talwr ffi'r drwydded, ac felly nid yw'n cynnwys unrhyw gostau a ariennir gan gyd-gynhyrchwyr trydydd parti. Mae'r broses o ddyrannu costau, yn enwedig costau dosbarthu, seilwaith a chymorth, yn seiliedig ar ddosbarthu'r gost berthnasol yn ôl costau cynnwys sylfaenol y drwydded gwasanaeth perthnasol. Felly, nid yw costau'r trwyddedau gwasanaeth unigol a nodir isod yn cyfateb yn uniongyrchol i gostau'r gwasanaeth dan sylw ar ei ben ei hun.

Ar gyfer BBC HD, BBC Ar-lein a Botwm Coch y BBC, mae'r drwydded ond yn adlewyrchu'r costau ychwanegol o roi'r cynnwys ar yr awyr, oni bai bod y cynnwys wedi'i gomisiynu'n benodol ar gyfer un o'r tri gwasanaeth hyn. Dyrennir cost y cynnwys gwreiddiol i'r gwasanaeth sy'n ei ddarlledu gyntaf.

Mae trwyddedau CBBC a CBeebies wedi' u haddasu er mwyn adlewyrchu'r brandiau hynny yn hytrach na'r sianeli y darlledwyd y rhaglenni plant arni. Yn yr un modd, nid yw BBC One a BBC Two yn cynnwys gwariant rhaglenni plant mwyach.

Mae'r cyfanswm gwariant yn is na'r hyn a ddangoswyd yn gynharach, gan nad yw'n cynnwys costau newid i ddigidol na chostau ailstrwythuro corfforaethol eraill.

| **Trwyddedau gwasanaeth (£m) cyllideb 2011/12** | **Cynnwys** | **Dosbarthu** | **Seilwaith /cymorth** | **Eitemau eraill** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| BBC One | 1,102.6 | 63.2 | 255.6 | | 1,421.4 |
| BBC Two | 435.7 | 26.1 | 103.8 | | 565.5 |
| BBC Three | 84.5 | 4.9 | 19.9 | | 109.3 |
| BBC Four | 52.0 | 3.6 | 12.6 | | 68.2 |
| BBC HD TV | 2.1 | 10.2 | 0.7 | | 13.0 |
| BBC Alba | 4.7 | 1.9 | 1.0 | | 7.5 |
| CBBC | 84.8 | 3.9 | 20.6 | | 109.4 |
| CBeebies | 29.3 | 4.2 | 6.9 | | 40.4 |
| BBC News Channel | 45.3 | 7.7 | 7.2 | | 60.2 |
| BBC Parliament | 2.3 | 5.9 | 0.5 | | 8.7 |
| Botwm Coch y BBC | 15.1 | 22.7 | 3.7 | | 41.5 |
| **Teledu** | **1,858.2** | **154.1** | **432.5** | **-** | **2,444.9** |
| BBC Radio 1 | 39.0 | 5.0 | 4.4 | | 48.4 |
| BBC Radio 2 | 45.7 | 5.1 | 6.0 | | 56.7 |
| BBC Radio 3 | 38.0 | 5.2 | 8.3 | | 51.5 |
| BBC Radio 4 | 91.1 | 11.4 | 18.4 | | 120.9 |
| BBC Radio Five Live | 53.3 | 6.8 | 11.6 | | 71.8 |
| BBC Radio Five Live Sports Extra | 2.5 | 0.3 | 0.6 | | 3.5 |
| BBC Radio 1Xtra | 7.8 | 0.4 | 1.7 | | 9.9 |
| BBC 6 Music | 7.2 | 0.4 | 1.4 | | 9.1 |
| BBC Radio 4 Extra | 5.3 | 0.4 | 1.2 | | 6.9 |
| BBC Asian Network | 8.9 | 0.7 | 2.0 | | 11.7 |
| BBC Local Radio | 115.7 | 8.5 | 24.4 | | 148.6 |
| BBC Radio Scotland | 22.5 | 3.5 | 4.6 | | 30.5 |
| BBC Radio nan Gaidhael | 3.6 | 1.3 | 0.8 | | 5.7 |
| BBC Radio Wales | 12.7 | 1.2 | 2.6 | | 16.5 |
| BBC Radio Cymru | 11.4 | 1.8 | 2.4 | | 15.6 |
| BBC Radio Ulster/BBC Radio Foyle | 15.8 | 2.1 | 3.3 | | 21.1 |
| **Radio** | **480.5** | **54.1** | **93.7** | **-** | **628.3** |
| BBC Ar-lein | 119.7 | 26.2 | 28.2 | | 174.2 |
| **Ar-lein** | **119.7** | **26.2** | **28.2** | **-** | **174.2** |
| **Gwariant wedi'i reoleiddio yn ôl trwydded gwasanaeth** | **2,458.5** | **234.4** | **554.4** | **-** | **3,247.3** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau casglu ffi'r drwydded | | | | 126.5 | 126.5 |
| Cerddorfeydd a grwpiau perfformio | 20.2 | | 5.1 | | 25.3 |
| S4C | 24.6 | | 5.2 | | 29.7 |
| Gwariant datblygu | 35.7 | | 9.1 | | 44.8 |
| Costau ychwanegol i gynhyrchu incwm trydydd parti | | | | 53.5 | 53.5 |
| **Arall** | **80.5** | **-** | **19.4** | **180.0** | **279.9** |
| Costau ailstrwythuro | | | | 61.5 | 61.5 |
| **Cyfanswm Gwariant Gwasanaethau Cartref** | **2,539.0** | **234.4** | **573.8** | **241.5** | **3,588.8** |

# 5 Datganiadau o bolisïau rhaglenni

# BBC One

Nod BBC One yw bod y sianel deledu fwyaf poblogaidd, gyda'r amrywiaeth ehangaf o raglenni o ansawdd ar rwydwaith prif ffrwd y DU.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Nod BBC One yw bod y sianel fwyaf poblogaidd a werthfawrogir fwyaf ym Mhrydain, gan gynnig rhywbeth pwysig i bawb yn y DU. Mae angen i BBC One adlewyrchu'r DU gyfan, o raglenni fel The One Show i bortreadu cytbwys mewn rhaglenni ffeithiol, drama a chomedi. Bydd BBC One yn parhau i ddod â'r genedl ynghyd yn ystod y digwyddiadau chwaraeon pwysicaf a mwyaf, er enghraifft Wimbledon a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad.

Mae gen i ffydd mai BBC One fydd y sianel y bydd gwylwyr yn troi ati yn ystod adegau o bwysigrwydd cenedlaethol, o sylw digyffelyb i'r Briodas Frenhinol eleni i'r rhaglenni newyddion a materion cyfoes gorau. Mae'n bwysig i mi bod y sianel yn ymgysylltu'n rheolaidd â gwylwyr gyda chynnwys ffeithiol difrifol, drwy raglenni sydd wedi hen ennill eu plwyf, fel *Panorama* a fformatau arbrofol newydd ym meysydd gwyddoniaeth, hanes, y celfyddydau a dogfen.

Dylai'r sianel ganolbwyntio ar raglenni sy'n uchelgeisiol greadigol ac sy'n hollol wahanol i raglenni sianeli eraill, ac rwy'n ymroddedig i sicrhau bod ein harlwy drama a natur yn un cwbl gynhwysfawr ac o ansawdd heb ei ail. Mae'n rhaid i'r uchelgais greadigol hon hefyd fod yn ganolog i'n rhaglenni comedi ac adloniant, a byddwn yn dod â naws hynaws, hiwmor a'r doniau mwyaf poblogaidd i'r sianel drwy gomisiynu rhaglenni newydd.

**Danny Cohen, Rheolydd, BBC One**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Yn adolygiad Ymddiriedolaeth y BBC o BBC One, nodwyd fod angen mynd i'r afael ag arbenigrwydd rhaglenni cyn y trothwy gwylio teuluol a dangos mwy o uchelgais creadigol am 9pm. Rydym yn rhoi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn gyda syniadau amrywiol ar gyfer rhaglenni unigol a chyfresi o wahanol fathau.

- Gwyddom fod cynulleidfaoedd BBC One yn gwerthfawrogi cyfresi ffeithiol sy'n eang, yn uchelgeisiol ac sydd o ansawdd heb eu hail. Eleni rydym yn gobeithio darlledu cyfres natur ar y sianel, *Frozen Planet*, a chyfres wyddoniaeth, *Dinosaur Planet* (teitl dros dro). Rydym hefyd wrthi'n cynhyrchu cyfres hanes nodedig ar gyfer 2012 am yr Ymerodraeth Brydeinig gyda Jeremy Paxman wrth y llyw.

- Mae'n bwysig bod BBC One yn parhau i gynnig amrywiaeth, dyfnder ac ansawdd yn ein dramâu. Eleni byddwn yn darlledu drama uchelgeisiol a fydd yn bwrw golwg ar brofiadau amrywiol Prydain, o straeon cyfoes unigryw *One Night* i addasiadau o'r clasuron, fel *Great Expectations*.

- Byddwn yn ceisio cynnig comedi cyffrous ac amrywiol sy'n apelio i gynulleidfa eang BBC One. Will Mellor fydd seren drama deuluol newydd, *In with the Flynns*, ac mae *Candy Cabs* yn gomedi ysgafn sydd wedi'i leoli yng ngogledd-ddwyrain Lloegr am griw o fenywod sy'n rhedeg cwmni tacsis. Rydym hefyd yn croesawu *Miranda* i BBC One.

- Byddwn yn cyflwyno nifer o raglenni nodwedd ffeithiol newydd (rhaglenni unigol a chyfresi) a fydd yn apelio at gynulleidfa graidd eang. Bydd y rhaglenni hyn yn trafod materion o bwys i bobl. Mae *The Great British Weather Show* (teitl dros dro) yn fformat uchelgeisiol a chyffrous ar sail digwyddiadau a fydd yn llawn gwybodaeth a ffeithiau i'r teuluoedd a fydd yn ei wylio.

- Rydym yn atgyfnerthu ein darpariaeth newyddiadurol sy'n rhoi sylw i ddefnyddwyr a'n rhaglenni materion cyfoes a digwyddiadau pwysig ar BBC One Daytime. Bydd dau slot, am 0915 ac 11am, yn cael eu neilltuo ar gyfer hyn gydol y flwyddyn a phan fydd hynny'n bosib byddwn yn eu cynnig ochr yn ochr â dramâu cysylltiedig fel *Rewind the 60s* a *The Indian Doctor*. Mae enghreifftiau sydd ar ddod yn cynnwys wythnos hanes cymdeithasol am y cyfrifiad, *100 Years of Us* a *32 Brinkburn Street*; y gyfres ddefnyddwyr *Tricks of The Tradesmen*; a'r gyfres materion cyfoes *Britain's Killer Roads*.

- BBC One HD – gweler datblygiadau nodedig am fanylion pellach.

# BBC Two

Mae BBC Two yn cynnig rhaglenni treiddgar o sylwedd i gynulleidfa eang. Mae'n cynnig mwy o raglenni ac amrywiaeth ffeithiol nag unrhyw sianel BBC arall ac yn cyfuno hynny â rhaglenni celf, comedi a drama unigryw.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

BBC Two yw'r sianel amgen brif ffrwd, gydag ysbryd creadigrwydd beiddgar yn un o'n nodweddion unigryw. Ail-ategu ein gallu i lansio rhaglenni ffeithiol uchelgeisiol sy'n ganolog i'r amserlen oriau brig yw'r dasg bwysicaf sydd wedi fy wynebu ac mae'n wych gweld cymaint ohonynt yn dwyn ffrwyth, o *Wonders of the Universe* i *The Normans* a *Secret Iraq* i *Gareth Malone Goes to Glyndebourne.* Byddwn yn parhau i fynd o nerth i nerth yn 2011.

Ond mae BBC Two yn ymwneud â siarad yn ddeallus â chynulleidfaoedd ehangach hefyd, ac mae gennyf ymroddiad llwyr i ddatblygu mwy o gyfresi ffeithiol gwreiddiol sydd â'r potensial i ymgysylltu â niferoedd uchel o wylwyr sy'n awchu am sylwedd ar draws amrywiaeth enfawr, bywiog o bynciau. Yn ddiweddar, y sioeau byw, *Stargazing* a *Lambing*, a ailfywiogodd ddawn BBC Two o gyfuno cynnwys manwl anhygoel gydag elfen o adloniant ysgafn gan gynnig rhaglenni a oedd yn apelio i'r teulu cyfan. Roedd hefyd yn flwyddyn ragorol i dalent newydd cyffrous a gafodd y cyfle i gyflwyno ei sioeau eu hunain yn ystod oriau brig - cynigiodd yr haneswyr Amanda Vickery, Mary Beard a Ben MacIntyre, y ffisegydd Maggie Aderin-Pocock a'r polymath Lorraine Pascale, ymysg eraill, awdurdod ac arbenigedd a hynny'n hynaws ac yn hygyrch.

Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi lansio rhaglenni comedi unigryw sydd wedi gwneud eu marc, o *Rev i The Trip* ac o *Grandma'r House* i *Roger and Val Have Just Got In*. Eleni rydym am geisio sicrhau cydbwysedd rhwng cynnig ail gyfresi i'r sioeau y mae'n cynulleidfaoedd wrth eu bodd â hwy a gadael digon o le i ddatblygu doniau newydd. Yn 2011, mae ein harlwy drama yn frith o brosiectau newydd, gyda phedair cyfres chwe-rhan newydd ochr yn ochr ag amrywiaeth o ffilmiau unigol a chyfresi bach.

I mi, mae BBC Two yn gyfuniad cyffrous o bethau - gwybodaeth ac adloniant, awdurdod a ffraethineb. Dyna sy'n ei gwneud yn sianel mor arbennig a gwahanol i sianeli eraill ar y teledu.

**Janice Hadlow, Rheolydd BBC Two**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd gan BBC Two ran ganolog ym mlwyddyn llyfrau'r BBC gyda rhaglenni ar Charles Dickens, Jane Austen a William Golding, tra bydd Stephen Fry yn cyflwyno cyfres arloesol newydd ar ddatblygiad iaith. Bydd Melvyn Bragg yn ymchwilio i ddosbarth, bydd Waldemar Januszczak yn cyflwyno *Impressionism* a bydd *Arena* yn rhoi sylw i George Martin a Jonathan Miller.

- Bydd BBC Two yn dangos amrywiaeth o gyfresi drama newydd fel addasiad Lucinda Coxon o'r nofel *The Crimson Petal And The White* gan Michael Faber i waith newydd mor amrywiol â *The Hour*, drama Abi Morgan wedi'i gosod ym 1956, *White Heat* gan Paula Milne, epig sy'n dilyn hynt a helynt grŵp o ffrindiau am hanner canrif a drama dywyll Hugo Blick, *The Shadow Line*.

- Byddwn yn rhoi sylw eang i Affganistan – ddoe a heddiw - bydd Rory Stewart, y diplomydd, yn adrodd hanes *The Great Game* a bydd tri o newyddiadurwyr y BBC a fu ar leoliad yno'n ddiweddar yn rhoi'r hanesion diweddaraf i ni o'r wlad. Bydd Evan Davies yn ymchwilio i economi'r DU i ddarganfod pa rannau sy'n cynhyrchu ein cyfoeth, bydd Adam Curtis yn dadlau bod drwgdybiaeth gynyddol o'r syniad o gynnydd yn fygythiad i ddemocratiaeth dorfol a bydd yr Athro Diarmaid McCulloch yn rhoi blas i ni ar hanes Lloegr, yn *How God Made the English*.

- Yn *Frontline Medicine*, bydd Michael Mosley yn dangos sut mae datblygiadau meddygol ar faes y gad o fudd i ni yma gartref. Byddwn yn darlledu tymor ar brofiadau Prydeinwyr o hil gymysg, yn *Mixed Race Britons*.

Bydd cyfres newydd yn bwrw golwg ar fywydau gweithwyr cymdeithasol, cartrefi gofal a mabwysiadu, bydd Gareth Malone yn gweithio gyda chôr o wragedd y fyddin tra bod eu gwŷr yn gwasanaethu yn Affganistan a bydd y ddau gogydd blewog yn ymgyrchu dros well prydau ar glud yn *The Hairy Bikers*. Bydd BBC Two yn adlewyrchu amrywiaeth eang o genres yn ystod y dydd, gan gynnwys mwy o raglenni hanes, celf a threftadaeth. Bydd Melvyn Bragg yn pori drwy'r archifau o ffilm gan ddatgelu straeon diddorol am fywyd ym Mhrydain yn y gorffennol a bydd Show Me the Monet yn annog y gynulleidfa i beintio a gweld a yw eu gwaith yn ddigon da i'w werthu mewn orielau lleol.

# BBC Three

Mae BBC Three wedi ymrwymo i gynnwys a doniau Prydeinig ifanc. Mae'r sianel yn ceisio darparu cymysgedd eang o raglenni ar gyfer cynulleidfaoedd iau yn bennaf.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

BBC Three yw'r sianel sy'n darparu cymysgedd gyfoethog o raglenni arloesol, cyffrous a chreadigol ymhob genre ar gyfer gwylwyr ifanc. Gwyddom ein bod ar yr un donfedd â'n cynulleidfa darged gan mai BBC Three yw'r sianel ddigidol fwyaf poblogaidd o hyd ymhlith pobl ifanc 16-34 oed yn ystod ei horiau darlledu. Eleni, byddwn yn cynnig amrywiaeth o raglenni unigryw newydd ac yn parhau i ymgysylltu â'n cynulleidfa ar-lein.

BBC Three yw'r unig sianel ddigidol o hyd sy'n darparu cynnwys ffeithiol trawiadol iawn sy'n addysgu ac ymgysylltu â phobl ifanc. Rwy'n bwriadu parhau dilyn trywydd y Tymor Oedolion (Adult Season) llwyddiannus iawn y llynedd drwy archwilio sut brofiad yw tyfu i fyny a bod ar fin bod yn oedolyn a bydd tymor arbennig *Bringing Up Britain* yn bwrw golwg ar faterion sy'n ymwneud â rhianta. Bydd rhaglenni arbennig o *Young Voters Question Time* hefyd.

Ni ddylai BBC Three ofni rhoi cynnig ar bethau newydd. Cafwyd llwyddiant ysgubol gyda rhaglenni comedi, fel y sioe bypedau *Mongrels* a'r comedi sefyllfa *Him and Her*, ym maes adloniant gyda *Lee Nelson's Well Good Show*, ym maes drama gyda *Lip Service*, a byddwn yn parhau â'r gwaith da eleni. Mae gan BBC Three rôl bwysig wrth feithrin doniau newydd ar y sgrin yn ogystal â thu ôl i'r camera gyda mentrau fel 'Fresh' ar gyfer cyfarwyddwyr newydd.

**Zai Bennett, Rheolydd, BBC Three**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Rydym am archwilio hanes cyfoes ar gyfer ein cynulleidfa darged. Mae gennym raglen ddogfen ar waith o'r enw *The History of Single Mums*. Rydym hefyd yn ymgymryd â phrosiect uchelgeisiol, *Their War* (teitl dros dro), a fydd yn adrodd hanes y rhyfel yn Affganistan drwy bigion a ffilmiwyd gan filwyr ar faes y gad.

- Yn sgil llwyddiant ein rhaglenni ymchwil unigol i faterion defnyddwyr, mae BBC Three yn datblygu rhaglenni newyddiadurol sy'n rhoi sylw i ddefnyddwyr. Rydym wedi comisiynu cyfres a fydd yn ymchwilio i'r diwydiant harddwch yn y DU.

- Ar ôl llwyddiant *Being Human* a *Lip Service*, mae BBC Three yn ennill ei phlwyf am ddrama arbennig ar gyfer cynulleidfa iau. Ochr yn ochr â chyfresi newydd o'r sioeau uchod, bydd BBC Three yn cyflwyno drama oruwchnaturiol arloesol newydd, *The Fades*.

- Mae gan BBC Three rôl hollbwysig yn cyflwyno materion cyfoes i gynulleidfa ifanc. Byddwn yn parhau i wneud hyn yn ein bwletinau newyddion *60 Seconds* ac yn ein rhaglenni dogfen materion cyfoes. Gwyddom fod cyflogaeth yn bwnc llosg i bobl ifanc ar hyn o bryd. Drwy gydweithio â BBC Learning rydym yn bwriadu cyd-gomisiynu cyfres dreiddgar yn bwrw golwg ar gyflogaeth i bobl ifanc.

- Mae BBC Three wedi cymryd cam ymlaen yn ddiweddar gan ymgysylltu â'n cynulleidfa ar-lein. Eleni rydym am ddwysau'r profiad gyda'n cynulleidfa gan gynyddu ein dylanwad drwy gyfryngau cymdeithasol a darparu cynnwys ar-lein trawiadol a fydd yn ategu'r sianel gyda mentrau fel y gyfres Affganistan a'r prosiect ar gyflogaeth.

# BBC Four

Nod BBC Four yw bod y sianel deledu fwyaf deallus a diwylliannol gyfoethog ym Mhrydain, gan gynnig amrywiaeth uchelgeisiol o gelf, cerddoriaeth a diwylliant.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Nod BBC Four yw bod y sianel fwyaf diwylliedig yn y DU a bod y sianel o ddewis i bobl sy'n hoff o feddwl. Diben, menter ac angerdd sydd wrth wraidd BBC Four. Bydd yn parhau i hyrwyddo arbenigwyr yn eu meysydd i leisio eu barn a'u safbwyntiau, gyda phob un â rhywbeth i ddweud. Trwy wneud hynny, mae BBC Four am geisio bod yn gymaint o ran o gynnyrch celfyddydol Prydain â'r diwylliant y mae'n ei adlewyrchu.

Bydd BBC Four yn parhau i fod yn sianel sy'n rhagori ym myd y celfyddydau a diwylliant, gan ymdrin â phynciau yn dreiddgar, yn fanwl ac yn awdurdodol. Nid yn unig mae ganddi ymrwymiad i roi sylw i'r celfyddydau, ond mae hefyd yn eu dathlu'n frwd, gan gynhyrchu cynnwys sy'n apelio i gynulleidfa eang. Mae'r sianel yn chwilfrydig am swyddogaeth y celfyddydau a diwylliant mewn cymdeithas fodern. Mae hynny'n cynnwys mynd i'r afael â rhai o'r pynciau celfyddydol mawr fel y symffoni a dathliad o gyfraniad diwylliannol America yn yr 20fed ganrif, yn ogystal â phynciau o'r genom i drydan, moethusrwydd i Fyddin Prydain, Gwlad yr Iâ i deyrnasoedd coll Affrica.

Y nod yw cynnig trafodaeth a dealltwriaeth trwy raglenni ffeithiol, drama ac adloniant. Bydd BBC Four yn parhau i gyfuno steil a ffraethineb, gan ddiddanu wrth ein haddysgu, gan gynnig gwybodaeth a dirnadaeth tra'n difyrru ar yr un pryd. Felly, gallwch ddisgwyl safbwyntiau cryf a ffyrdd newydd o edrych ar bynciau sy'n ennyn trafodaeth mewn casgliad o raglenni a fydd, gobeithio, yn ddifyr a gwerth chweil.

**Richard Klein, Rheolydd, BBC Four**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Uchafbwynt ein blwyddyn gelf fydd tymor mis o hyd ar Gelf America: i gyd-fynd â chyfres tair rhan Andrew Graham-Dixon, bydd Rankin, y ffotograffydd, yn dathlu Life Magazine, bydd Rich Hall yn bwrw llygad gellweirus ar *Road Movies*, bydd Rick Stein yn teithio'r Mississippi yn chwilio am y Blues a bydd pedair rhaglen ddogfen ar gerddoriaeth yn dadansoddi cerddorion du yr 1980au. Byddwn yn neilltuo tymor ar hanes y symffoni a byddwn yn lansio ymchwiliad 18 mis pwysig i'r celfyddydau cymhwysol, gan ddechrau gyda cherameg. Bydd James Fox yn cyflwyno cyfres ar baentiadau Prydeinig o'r 20fed ganrif, bydd Lucy Worsley yn dathlu celf cyfnod y Rhaglywiaeth, a bydd Benedict Cumberbatch yn ail-archwilio gwaith Terence Rattigan. Fel rhan o brosiect archif BBC Four, bydd In Their Own Words yn pori drwy archifau'r BBC ar drywydd athronwyr. Hefyd, bydd detholiad o raglenni ar gael yn barhaol ar-lein.

- Bydd ffocws rhyngwladol BBC Four mor gryf ag erioed. Bydd Storyville yn canolbwyntio ar flwyddyn gyfiawnder BBC Four gydag wythnos o raglenni ar gyfiawnder rhyngwladol, gan gynnwys ffilmiau ar hanner canmlwyddiant Amnest Rhyngwladol a chipolwg ar fywyd yn yr I.C.C. Bydd *Have you heard from Johannesburg* yn ail-fyw, dros bum awr, y frwydr yn erbyn apartheid. Bydd cyfresi newydd o *Spiral* a *The Killing* yn ychwanegu at ein ffilmiau newydd mewn ieithoedd tramor a seremoni wobrwyo y *World Cinema Awards*. Bydd Simon Sebag-Montefiore yn dod â'i lyfr ar Jeriwsalem yn fyw ar y sgrin a bydd BBC Four yn neilltuo wythnos i Wlad yr Iâ.

- Byddwn yn pwyso a mesur dyddiau cynnar rhaglenni dogfen ym Mhrydain a bydd gennym ffilmiau dogfen newydd ar ysgolion gramadeg a Chatholigion, ynghyd â thymor ar y Fyddin – gan gynnwys blwyddyn yn Academi Sandhurst, hanes cymdeithasol catrodau, ac archwiliadau o logisteg y fyddin fodern a dylanwad ENSA.

- Bydd rhaglenni gwyddoniaeth BBC Four yn troi eu sylw at Fotaneg, Trydan, y Genom, bioleg pydredd a dylanwad pobl ar wahanol amgylcheddau. Bydd y gyfres hanesyddol, *A Child in Time*, yn cyflwyno pedwar portread o fywydau plant sy'n datgelu sut yr oedd y cymdeithasau yr oeddent yn byw ynddynt yn ystyried a gwerthfawrogi bywydau eu plant.

# CBBC

Mae CBBC yn cynnig cymysgedd unigryw o raglenni ar gyfer plant 6-12 oed, gyda rhaglenni o'r DU yn bennaf a ddarperir mewn amgylchedd cyffrous, creadigol a hwyliog.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Cafodd CBBC ei blwyddyn orau erioed ar y teledu ac ar-lein yn 2010/11 ac mae angen iddi'n awr adeiladu ar y llwyddiant hwn yn 2011/12. Y flwyddyn nesaf rydym am gryfhau ein safle fel hoff sianel y genedl drwy ddenu mwy o blant nag erioed i'r sianel, gan gynrychioli amrywiaeth lawn plant yn y DU a chyrraedd plant mewn cartrefi teledu lloeren a chebl.

Mae CBBC yn cynnig amrywiaeth ehangach o raglenni nag unrhyw sianel plant arall, o gomedi i faterion cyfoes. Hefyd, CBBC yw'r unig sianel ar gyfer ei grŵp oedran i ddarlledu rhaglenni dinasyddiaeth a ffeithiol difrifol, fel *My Life* neu *Newsround Specials* (sydd wedi rhoi sylw i bynciau fel alcoholiaeth a bwlio'n ddiweddar). Bydd y ddarpariaeth eang hon yn parhau yn 2011/12.

Bydd y sianel hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar gynnwys o Brydain sydd wedi'i wneud ar gyfer plant Prydain gan blant Prydain, ynghyd â'i naws unigryw, anarchaidd. Mae hiwmor yn rhan gynhenid o hyn ac mae CBBC yn deall pwysigrwydd gwneud i'n cynulleidfa chwerthin, hyd yn oed gyda phynciau o ddifrif fel hanes a gwyddoniaeth. Nid ydym am i blant deimlo eu bod yn cael eu dysgu, rydym am iddynt chwerthin wrth ddysgu.

**Damian Kavanagh, Rheolydd, CBBC**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Yn dilyn llwyddiant *Horrible Histories*, bydd CBBC yn comisiynu mwy o raglenni ffeithiol gyda chynnwys go iawn yn sail iddynt (er enghraifft, *Vicopedia* a gyflwynir gan Vic Reeves a'r sioe bioleg a chyrff newydd ych a fi, *Squeamish*). Ochr yn ochr â rhaglenni Ffeithiol Arbenigol, bydd rhaglenni Dinasyddiaeth hefyd yn parhau'n rhan annatod o CBBC.

- Nod rhaglenni fel *Gimme A Break* ar CBBC yw grymuso plant a rhoi rheolaeth iddynt. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hyn yn ystod y flwyddyn nesaf gyda rhaglenni fel *Project Parent*, *Remote Control Star* a *CBBC Driving Academy*.

- Mae teithio i bob cwr yn rhan fawr o frand CBBC, yn enwedig wrth i'r sianel symud i'w chartref newydd yn Salford. Mae digwyddiadau sydd ar y gweill yn cynnwys *Live and Deadly*, *Blue Peter Olympic Torch* ac *Extreme Cuisine* (*Gastronuts* ar daith).

- Bydd CBBC hefyd yn annog y plant eu hunain i fynd allan a bod yn egnïol, drwy gomisiynu rhaglenni newydd fel *Deadly Art a* rhoi mwy o bwyslais ar weithgarwch ac ymgysylltu yn *Blue Peter*.

# CBeebies

Nod CBeebies yw cynnig rhaglenni o safon uchel sydd wedi'u cynhyrchu yn y DU gan mwyaf i annog dysgu drwy chwarae mewn amgylchedd cyson ddiogel ar gyfer plant dan chwech oed.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Rwyf am agor y byd i blant ifanc iawn a chreu cynnwys unigryw, priodol i oedran, wedi'i wneud gan y bobl hynny sy'n gallu gweld y byd drwy lygaid plant dan oed ysgol.

Mae hunaniaeth unigryw CBeebies yn deillio o'i gwreiddiau yn y byd go iawn gyda rhaglenni'n seiliedig ar weithredoedd go iawn a phobl go iawn, drwy gyflwyniadau neu mewn sioeau newydd fel *Justin's House, I Can Cook On the Road* ac *Andy's Wild Adventures*. Mae ein cynulleidfaoedd yn gallu uniaethu â'r rhaglenni hyn ac yn eu hannog i ddarganfod neu roi cynnig ar rywbeth newydd eu hunain.

Dylai symud i Salford olygu bod cysylltu fel hyn â'r gynulleidfa'n rhan annatod o'r hyn a wnawn, gan y bydd y safle yn croesawu plant i ddigwyddiadau a pherfformiadau gydol y flwyddyn (er enghraifft, bocsys cerddoriaeth CBeebies yng Ngŵyl Ryngwladol Manceinion a recordio Pantomeim Nadolig CBeebies - sydd bellach yn uchafbwynt blynyddol yn yr amserlen!).

Yn ogystal â'r cyffro byw, mae'r animeiddio gorau yn elfen graidd o'r sianel. Mae *Octonauts*, y gyfres antur danddwr, wedi bod yn boblogaidd iawn ar y teledu ac ar iPlayer, yn ogystal â *Rastamouse*; ac sydd wedi hen ennill eu plwyf fel *Timmy Time* yn parhau'n boblogaidd dros ben.

Mae cynhwysiant ac amrywiaeth yn parhau'n ganolog i gyflwyniad a rhaglenni CBeebies. Mae sioeau fel *Same Smile*, *Something Special* a *The Lingo Show* yn cynnig cyfeiriadau a modelau rôl amrywiol tra'n parhau i apelio i'n cynulleidfa gyfan.

Mae'r cyfle i ddysgu, hiwmor ac, uwchlaw popeth, ansawdd yn nodweddion cyffredin yn yr holl raglenni. Mae plant ifanc yn haeddu'r gorau a'm nod yw sicrhau bod CBeebies yn parhau'n hafan i adloniant plant dan chwech.

**Kay Benbow, Rheolydd, CBeebies**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd creu cynnwys ac adegau gwylio i blant 4-6 oed yn ffocws penodol i'r sianel yn 2011/12. Mae angen i ni wneud ein gorau glas i gadw'r gwylwyr hŷn a'u trosglwyddo'n naturiol i CBBC drwy frandiau allweddol a gweithgareddau ar-lein.

- Byddwn yn parhau i estyn allan i'n cynulleidfa, er enghraifft drwy ail-gomisiynu rhaglenni sy'n annog plant i gymryd rhan (fel *Mr Maker Comes To Town*) a drwy fynd â sioeau cyfredol allan o'r stiwdio (fel *I Can Cook*).

- Mae rhaglenni ffeithiol a dysgu yn parhau'n rhannau mawr o CBeebies. Mae'r rhaglenni sydd wedi'u comisiynu o'r newydd yn cynnwys *Andy's Wild Adventures* (sy'n defnyddio doniau cyflwyno ac arbenigedd unigryw NHU), y rhaglenni iaith *Talkie Time* a *The Lingo Show*, a chyfres o *Nina and the Neurons* a fydd yn ateb cwestiynau plant am gyrff. Mae llawer o gyfresi newydd ar gyfer plant ifanc iawn hefyd ar y gweill.

- Nod CBeebies yw cadw'r animeiddio gorau yn y byd. Byddwn yn parhau i chwilio am ddeunydd animeiddio newydd tra'n parhau â'n llwyddiannau cyfredol, er gwaethaf cytundebau byd-eang mwy proffidiol gan gystadleuwyr.

- Ar-lein, mae cynnwys sain newydd yn cael ei ddatblygu, ynghyd ag ymgais i adfywio'r wefan Grown Ups, a fydd yn rhoi rhagor o wybodaeth i rieni a'u helpu i ddeall yr hyn y mae pob rhaglen ar CBeebies yn ei gynnig ar gyfer eu plant.

# BBC HD

Gwledd o raglenni gorau'r BBC yn cael eu darlledu ar fanylder uwch – dyna yw sianel BBC HD.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Yn ystod y flwyddyn nesaf rwy'n gobeithio y bydd BBC HD yn parhau i dyfu o ran nifer y gwylwyr sy'n gallu manteisio ar HD sy'n ymweld â'r sianel, ac o ran ei huchelgais i gynnig amrywiaeth heb ei ail o raglenni mewn manylder uwch.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, lansiodd BBC HD y sianel BBC One HD, sydd bellach yn cynnig hafan i holl raglenni manylder uwch BBC One. Mae hynny wedi agor y drws i BBC HD gynnig mwy o raglenni o sianeli eraill y BBC, o *Madagascar* a *Wonders of the Universe* ar BBC Two, i *Being Human* ar BBC Three, *Hattie* ar BBC Four, a rhaglenni fel *Horrible Histories* a *Rastamouse* ar ein gwasanaethau plant.

Rwyf am i BBC HD barhau i ddarparu ar gyfer pob chwaeth a diddordeb, a gweithio i gynnig dewisiadau deallus pan nad yw'n gallu cynnig rhaglenni cydamserol.

**Danielle Nagler, Pennaeth BBC HD**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasaneth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd BBC HD yn parhau gyda'i hymrwymiad o ddarlledu rhaglenni sefydledig HD ar draws ei holl sianeli. Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd *Mock the Week*, *Mastermind*, *Masterchef: the Professionals*, *The Russell Howard Show*, ac *Only Connect* yn cael eu darlledu mewn HD am y tro cyntaf ar BBC HD.

- Byddwn hefyd yn cynnig rhaglenni newydd cyffrous i wylwyr sianeli eraill y BBC, gan gynnwys *Frozen Planet, Dinasour Planet* (teitl dros dro), *Great Expectations, The Birth of Islam, Frontline Medicine, Origins of Us* ac *Art of America*.

- Byddwn yn parhau i roi sylw i ddigwyddiadau byw pwysig y mae'r BBC yn eu darlledu i wylwyr HD , gan gynnwys Sioe Flodau Chelsea, nad yw wedi'i gweld mewn HD am flynyddoedd lawer, ynghyd â Wimbledon a digwyddiadau chwaraeon eraill, y Proms, a Glastonbury.

- Bydd y rhaglenni hyn yn cael eu cynnig ochr yn ochr â rhaglenni sydd eisoes wedi ennill eu plwyf mewn HD, gan gynnwys *Top Gear, Railway Walks, Later with Jools Holland, Horizon, Natural World, Dr Who Confidential*, a *Lead Balloon*.

# BBC Radio 1

Nod BBC Radio 1 yw cynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd ifanc, gan gyfuno'r gerddoriaeth newydd orau ac artistiaid addawol, a chynnig llwyfan ar gyfer cerddoriaeth fyw, newyddion ac ymgyrchoedd cynghori.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Fy uchelgais yw i BBC Radio 1 barhau yn orsaf hollbwysig i bobl ifanc ledled y DU, gan gynnig amrywiaeth o raglenni uchelgeisiol ac unigryw ar yr awyr, gyda chynnwys gweledol perthnasol ar-lein.

Byddwn yn canolbwyntio ar bedair thema allweddol yn ystod y flwyddyn nesaf. Yn gyntaf, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar bobl ifanc dan 30 oed, gan ddatblygu ein tîm o gyflwynwyr a sicrhau bod ein rhaglenni cerddoriaeth a'n cynnwys golygyddol yn adlewyrchu ac yn arwain bywydau cynulleidfaoedd ifanc.

Byddwn hefyd yn edrych ar ffyrdd newydd o gysylltu â chynulleidfaoedd – gan bwyso a mesur sut gallwn fanteisio ar y gofod digidol i ddiogelu Radio 1 yn y dyfodol. Er nad yw pobl ifanc yn gwrando cymaint ag yn y gorffennol o bosibl, mae llawer yn mwynhau profiad cyffredinol cyfoethocach drwy ddefnyddio gwasanaethau ar-lein. Mae ein cynlluniau ar gyfer y 12 mis nesaf yn cynnwys hafan newydd a mwy o ymdrech nag erioed i ddarparu cynnwys ffurf cryno ar-alw.

Mae'r ddwy thema arall yn gysylltiedig â chreu rhaglenni unigryw o ansawdd, yn cynnwys achlysuron uchelgeisiol, amlwg yn yr amserlen, fel Penwythnos Mawr Radio 1 neu'r Teen Awards, a mentrau na allai neb ond y BBC eu darparu.

**Andy Parfitt, Rheolydd, BBC Radio 1**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasaneth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Rydym yn ychwanegu elfen newydd bwysig at ein calendr digwyddiadau byw yn gynnar yn 2012. Bydd *Radio 1 Live In….* yn gweld llawer o'n rhaglenni arbenigol yn teithio i bob cwr o'r DU gan gynnal cyfres o gigs, sioeau arbennig a digwyddiadau dawns.

- Bydd Penwythnos Mawr Radio 1 yn ymweld â Chaerliwelydd ym mis Mai; mae gennym gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer ein penwythnos rheolaidd yn Ibiza ym mis Awst; a bydd Teen Awards Radio 1 unwaith eto'n dathlu bywyd pobl yn eu harddegau yn yr hydref.

- Bydd gan *Newsbeat* ohebydd arbennig fydd â'r dasg o bori'n ddyfnach i straeon tramor sy'n effeithio ar ein gwrandawyr, yn enwedig yn Affganistan a gwaith y lluoedd arfog.

- Bydd Radio 1 a 1Xtra yn dod at ei gilydd ym mis Mehefin i ddarlledu *Dubstep Symphony*, sef prosiect unigryw ar y cyd rhwng Nero, y cynhyrchwyr cerddoriaeth electronig, a Ffilharmonig y BBC, a berfformir yn fyw yn Salford.

- Bydd cyfle i fwynhau ffrwyth llafur BBC Introducing wrth iddynt helpu i ddarganfod cyfansoddwyr ar lawr gwlad mewn slot arbennig ar restr chwarae Radio 1, gan roi cyfle i gynulleidfaoedd y dydd wrando ar act wahanol bob wythnos.

- Bydd ein sylw i weithredu cymdeithasol a'n hymgyrchoedd yn cynnwys cyfres arall o *Summer Surgery.* Byddwn hefyd yn rhoi sylw i wirfoddoli fel rhan o Benwythnos Mawr Radio 1 ac yn edrych ar ffyrdd o dynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â phreifatrwydd ar-lein i'n gwrandawyr ifanc.

- Bydd rhaglenni dogfen Radio 1 Stories yn cynnwys cyfres tair rhan yn bwrw golwg y tu ôl i'r llen ar fywyd mewn band, bydd ymweliadau â Moscow a Toronto ar gyfer International Radio 1 a rhaglen i gofio dengmlwyddiant yr ymosodiad ar adeilad y Twin Towers gan edrych ar sut mae 9/11 wedi dylanwadu ar fandiau a cherddorion.

- Ar-lein, bydd Radio 1 yn lansio hafan newydd sydd â'r nod o adlewyrchu'r profiad gwrando byw yn well ar yr awyr. Byddwn hefyd yn canolbwyntio mwy ar ddarparu cynnwys sain a gweledol ffurf-cryno, gan ei rannu lle'n briodol i gynnig uchafbwyntiau y gall gwrandawyr eu rhannu a'u lawrlwytho.

# BBC Radio 2

Mae BBC Radio 2 yn cynnig amrywiaeth eang o gerddoriaeth boblogaidd ac arbenigol a pherfformiadau byw i'w gwrandawyr, a ategir gan amrywiaeth eang o raglenni sgwrsio sy'n cynnwys materion cyfoes, rhaglenni dogfen, crefyddol a chelfyddydol.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Mae Radio 2 yn croesawu cynulleidfa eang ac amrywiol ar gyfer radio'r BBC trwy amrywiaeth o gerddoriaeth wreiddiol a rhaglenni sgwrsio difyr sy'n cynnig gwerth adloniadol. Mewn amserlen sydd wedi'i hailwampio'n llwyr, gyda rhaglenni pwysig newydd yn cael eu darlledu amser brecwast a diwedd y prynhawn, byddwn yn darlledu mewn ffordd gadarnhaol a hynaws gan ddathlu creadigrwydd ac ansawdd.

Bydd ein cyfraniad allweddol at gerddoriaeth yn parhau, gan ehangu gorwelion gwrandawyr a chefnogi artistiaid. Caiff ymrwymiad yr orsaf i gerddoriaeth fyw ei ymestyn trwy wella'r rhaglen wythnosol, *In Concert*. Byddwn yn parhau i roi llwyfan i ddiwylliant poblogaidd cyfoethog y genedl, gan fanteisio ar y gorau o'n hetifeddiaeth gomedi fel rhan o ymrwymiad newydd a fydd hefyd yn cynnig cyfleoedd i awduron a pherfformwyr newydd ac yn dathlu ein cerddoriaeth frodorol yn ei hamrywiol ffurfiau, gan gynnwys bandiau pres a chanu gwerin.

Fy uchelgais yw darparu gwasanaeth sy'n parhau i synnu a swyno ond sydd hefyd yn fwy cydlynol, gyda'n cynnwys digidol yn gwneud cyfraniad mwy allweddol. Byddwn yn parhau i ddatblygu cyfleoedd newydd yn ein rhaglenni yn ystod y dydd i adlewyrchu'r rhaglenni dogfen a cherddoriaeth arbenigol a ddarlledir gyda'r nos.

**Bob Shennan, Rheolydd, BBC Radio 2**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd *Prima Donna*, opera newydd Rufus Wainwright, yn cael ei llwyfannu am y tro cyntaf o'r Tŷ Opera Brenhinol.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu gigs *Hometown* drwy ddathlu achlysuron fel Elbow yn dychwelyd i Fanceinion, a byddwn yn darlledu unig berfformiad KD Lang yn y DU yn The BBC Radio Theatre.
- Bydd yr orsaf hefyd yn dathlu dengmlwyddiant Eden gyda pherfformiad unigryw gan Brandon Flowers.
- Bydd cyfres 6 rhan gyda Barbara Windsor yn dathlu digrifwragedd, a chyfres 4 rhan gyda Moira Stuart yn dathlu cantorion Jazz benywaidd, fel Lena Horne.
- Byddwn yn darlledu hanes Paul Robeson a'i berthynas unigryw â glowyr Cymru.
- Bydd Radio 2 yn darlledu cyfres 50 rhan bwysig: *Sounds Of The 20th Century,* a fydd yn cael ei chyflwyno gan Jeremy Vine a'i hyrwyddo'n wythnosol gyda detholiad "yn ystod y dydd" o'r gyfres yn cael ei hyrwyddo ar raglen Ken Bruce.
- Byddwn yn mynd â Nitin Sawhney i Bacistan, man geni Nusrat Fatah Ali Khan i fynd ar drywydd dylanwadau Nusrat Fatah Ali Khan ar gerddoriaeth.
- Bydd Michael Grade yn cyflwyno cyfres 8 rhan ar hanes teledu.
- Byddwn yn cynyddu'r cynnyrch radio a ddarperir gan gwmnïau radio annibynnol o 18% i 34% erbyn diwedd 2011.

# BBC Radio 3

Mae BBC Radio 3 yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol ac yn darparu amrywiaeth eang o jazz, cerddoriaeth y byd, rhaglenni celfyddydol, crefyddol a drama; mae pwyslais cryf ar berfformiadau cerddorol o bob rhan o'r DU.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Yn ei Adolygiad o'r Drwydded Gwasanaeth ar gyfer Radio 3, cadarnhaodd Ymddiriedolaeth y BBC strategaeth yr orsaf i gyflwyno cerddoriaeth a chelfyddydau o ansawdd uchel, tra'n parhau i ddatblygu hygyrchedd yr orsaf. Byddwn yn canolbwyntio'n rheolaidd ar gerddoriaeth glasurol craidd a gweithiau wedi'u recordio yn ein rhaglenni boreol wythnosol, gan sicrhau hygyrchedd i wrandawyr newydd. I gyd-fynd â hyn, bydd yr orsaf yn dechrau rhoi sylw i rai o ddarnau mwyaf arloesol cerddoriaeth yr 20fed ganrif mewn ffordd systematig yn *Hear & Now*. Byddwn hefyd yn cynnig mwy o gerddoriaeth glasurol ar benwythnosau, gan ddarlledu cyngherddau yn rheolaidd yn ystod y dydd.

O fis Mai 2011, bydd ymrwymiad yr orsaf i gerddoriaeth glasurol a'i hehangder daearyddol yn cael ei atgyfnerthu drwy ddarlledu cyngherddau byw bob noson o'r wythnos o bob cwr o'r DU. Er mwyn cynyddu effaith rhaglenni cerddoriaeth glasurol gyffredinol y BBC, byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr yn y byd teledu i gyflwyno tymor pwysig ar y symffoni.

Rydym yn bwriadu datblygu ein gallu ar-lein i'w gwneud yn haws i gynulleidfaoedd gyrchu genres rhaglenni penodol. Byddwn hefyd yn datblygu archif barhaol ar-lein ar gyfer y rhai hynny sydd am fynd ar drywydd eu diddordebau unigol ym myd cerddoriaeth a'r celfyddydau drwy ein rhaglenni o'r gorffennol.

**Roger Wright, Rheolydd, BBC Radio 3**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasaneth yn ystod y flwyddyn nesaf

- O fis Mai, bydd yr orsaf yn darlledu cyngerdd byw bob noson o'r wythnos am ran helaeth o'r flwyddyn am y tro cyntaf. Bydd y fenter newydd hon yn adlewyrchu amrywiaeth eang o berfformwyr a lleoliadau ledled y DU, gan gynnwys cerddorfeydd a chantorion y BBC.

- Bydd Radio 3 yn creu arweiniad rheolaidd i weithiau a recordiadau clasurol allweddol bob bore yn ystod yr wythnos.

- Bydd rhaglenni cerddoriaeth newydd yr orsaf yn lansio menter newydd i roi sylw i hanner can darn pwysig o gerddoriaeth a gyfansoddwyd yn ystod ail hanner yr 20fed ganrif.

- Bydd Radio 3 yn canolbwyntio'n benodol ar gerddoriaeth ysgafn a chanu corawl. Bydd penwythnos cyfan o'r Ŵyl Light Fantastic ym mis Mehefin, a fydd yn cynnwys perfformiadau gan grwpiau perfformio'r BBC. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, bydd Radio 3 yn cynnal cystadleuaeth gorawl ryngwladol, Let the Peoples Sing, yn Salford, gan ddathlu canu corawl amatur.

- Bydd yr orsaf yn dathlu dau ganmlwyddiant genedigaeth Franz Liszt gyda diwrnod rhyngwladol o berfformiadau cerddorol, gan gynnwys cyngherddau o leoedd yr oedd yn gysylltiedig â hwy. Hefyd, rydym yn bwriadu canolbwyntio ar gyfansoddwr arall, a byddwn yn nodi hanner canmlwyddiant marwolaeth yr arweinydd Syr Thomas Beecham gyda noson arbennig o raglenni.

- Bydd grwpiau perfformio'r BBC yn ymuno mewn dathliadau o gerddoriaeth gerddorfaol ledled y DU fel rhan o'r paratoadau ar gyfer Festival 2012.

- Bydd Radio 3 hefyd yn gweithio gyda Gŵyl Ryngwladol Manceinion i ddarlledu ei digwyddiadau a fydd yn pwyso a mesur pa mor bwysig yw'r llais dynol o safbwynt crefyddol, gan recordio mewn gwahanol leoliadau cysegredig ledled y ddinas.

# BBC Radio 4

Mae Radio 4 yn wasanaeth llafar cymysg sy'n cynnig newyddion a materion cyfoes treiddgar ac amrywiaeth eang o raglenni deallus eraill mewn sawl genre, gan gynnwys drama, darlleniadau, comedi a rhaglenni ffeithiol a chylchgrawn.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Fy uchelgais yw i Radio 4 barhau i fod yr orsaf sgwrsio sy'n denu'r nifer uchaf o wrandawyr yn y DU, gan barhau i ddifyrru ei chynulleidfa gyda'i hamrywiaeth a'i rhaglenni o ansawdd. Yn gyffredinol, rwyf am ychwanegu elfen o greadigrwydd a syndod i gynnyrch deallusol Radio 4, er mwyn ychwanegu ffocws ar fywyd cyfoes at ein hanes cadarn a rhoi mwy o flas rhyngwladol i'r rhwydwaith mewn ffordd gynnil.

Byddwn yn gohebu a dadansoddi datblygiadau yng ngwleidyddiaeth a chymdeithas Prydain a'r byd drwy raglenni materion cyfoes a newyddion ymatebol, gan gynnwys cyfres gan Jeremy Bowen ar yr argyfwng yn y byd Arabaidd, ynghyd â thrwy raglenni trafod, nodwedd a drama, fel darllen y clasur Eifftaidd modern, *The Yacoubian Building*.

Byddwn yn sicrhau bod ein rhaglenni ffeithiol yn fwy dylanwadol drwy gyflwyno slot gwyddoniaeth rheolaidd newydd lle bydd gwyddonwyr blaenllaw yn egluro eu gwaith i gynulleidfa yn ystod oriau brig.

Mae hanes yn parhau'n hollbwysig i ni, gan gynnwys hanes storïol ar raddfa nas gwelwyd ei thebyg, fel stori Rwsia yn *The Wild East*. Rwyf hefyd am ganolbwyntio mwy ar y Brydain gyfoes, gan ddatgelu'r ffordd rydym yn byw yn awr drwy, er enghraifft, ddiweddaru prosiect Domesday y BBC a ddechreuwyd yn y 1980au.

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i gynnig yr amrywiaeth ehangaf o ddrama wreiddiol yn y DU, gan gynnwys dramateiddiad o *Life and Fate*, nofel epig Vasily Grossman, a fydd yn cael ei darlledu ym mhob slot drama am wythnos.

**Gwyneth Williams, Rheolydd, Radio 4**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasaneth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd rhaglenni ffeithiol arloesol a gomisiynir yn cynnwys *Sport and the British*, cyfres hanes 30 rhan yn olrhain y berthynas unigryw rhwng Prydain a'r campau y mae wedi'u hallforio i bedwar ban byd.
- Bydd ymrwymiad Radio 4 i gyfathrebu gwyddoniaeth o ddifrif yn cynnwys tymor ar yr ymennydd a goblygiadau niwrowyddoniaeth i gymdeithas a pholisi cyhoeddus.
- Bydd cynyrchiadau drama uchelgeisiol yn cynnwys tymor Terence Rattigan a dramateiddiadau o nofelau Marlowe Raymond Chandler. Byddwn hefyd yn dathlu daucanmlwyddiant Charles Dickens a'r Brodyr Grimm.
- Bydd Radio 4 yn hyrwyddo diwylliant perfformiadau byw drwy fod â lle amlwg yng ngŵyl Caeredin a Gŵyl Lenyddiaeth Cheltenham.
- Byddwn yn adlewyrchu digwyddiadau sy'n dod â'r genedl ynghyd, gan ddarlledu'n fyw o'r Briodas Frenhinol ym mis Ebrill a bydd rhaglenni yn gynnar yn 2012 a fydd yn edrych ymlaen at y Jiwbilî Ddiemwnt.
- Byddwn yn datblygu Radio 4 Extra fel chwaer-orsaf, gan adeiladu ar lwyddiant Radio 7, a'i hyrwyddo i annog cynulleidfa Radio 4 i ddarganfod manteision gwrando digidol.

# BBC Radio 5 Live

Mae BBC Radio 5 Live yn darlledu newyddion a chwaraeon byw 24 awr y dydd, yn rhoi sylw i ddigwyddiadau wrth iddynt ddigwydd ac yn darparu cyd-destun drwy ddadansoddi a thrafodaethau.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Eleni, bydd Radio 5 live yn symud i'w chartref newydd yn Salford. Byddaf yn cynnal ymrwymiad yr orsaf i ddarparu'r newyddion diweddaraf wrth iddo dorri ac i chwaraeon byw ynghyd â'i rôl fel cartref trafodaeth a newyddiaduraeth i'r DU gyfan. Byddwn yn manteisio ar y symud o Lundain fel cyfle i ddarlledu hyd yn oed mwy o straeon, lleisiau a safbwyntiau o bob cwr o'r DU. Ein nod yw datblygu agenda newyddion unigryw 5 live ymhellach, gyda newyddiaduraeth wreiddiol a drwy ymchwilio i'r straeon sy'n hollol berthnasol i fywydau ein gwrandawyr. Byddwn yn adeiladu ar gryfderau ein sylw chwaraeon ac eto'n cyflwyno lleisiau newydd, yn enwedig fel cyfranwyr a dadansoddwyr.

Byddwn yn parhau i fynd â 5 live allan at ein gwrandawyr, gan adeiladu ar weithgarwch darlledu awyr agored cynyddol y deuddeg mis diwethaf, gan gynnwys ein trafodaethau yn ystod yr Etholiad Cyffredinol a Septemberfest yn Newcastle/Gateshead. Byddwn hefyd yn parhau i gynrychioli gwahanol gymunedau yn y DU wrth i ffawd economaidd y wlad barhau i fod yn thema allweddol. Un o elfennau allweddol llwyddiant 5 live yw ein perthynas uniongyrchol â'n cynulleidfa; mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol fel Twitter a Facebook yn parhau i fynd o nerth i nerth. Byddwn yn defnyddio'r sylwadau hyn, ynghyd â'r dulliau mwy traddodiadol o rannu barn, i adlewyrchu profiadau, safbwyntiau a phryderon pobl.

Y llynedd, datblygwyd amserlen fin nos y penwythnos gyda phedair rhaglen newydd; *Saturday Edition*, a *Pienaar's Politics*, *On The Money* a *5 live Investigates* ar nos Sul. Byddwn yn parhau i hyrwyddo a sefydlu enw da'r rhaglenni hyn o safbwynt newyddiaduraeth arloesol yn eu meysydd arbenigedd amrywiol.

Mae'n bwysig bod 5 live yn parhau i ymestyn ffiniau'r ddarpariaeth newyddion a chwaraeon. Byddwn yn ceisio swyno'r gynulleidfa gyda rhaglenni unigol, gan gynnwys rhaglenni dogfen, trafodaethau arbennig a chyfres o raglenni yn adlewyrchu themâu penodol (fel Wythnos y Teulu a gynhaliwyd yn Rhagfyr 2010). Byddwn yn arloesi gyda phartneriaethau o fewn a thu hwnt i'r BBC, gan fanteisio ar gyfleoedd newydd yn sgil BBC North. Bydd 5 live yn parhau i roi sylw i ddigwyddiadau mawr, gyda sylw i'r Briodas Frenhinol yn ganolbwynt i'r flwyddyn o'n blaenau.

**Adrian Van Klaveren, Rheolydd, BBC Radio 5 live**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasaneth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd Shelagh Fogarty, y cyflwynydd brecwast, yn symud i slot amser cinio ym mis Mai 2011, gyda Rachel Burden yn llenwi ei sedd ar y slot brecwast. Bydd cyflwynydd *Weekend Breakfast* newydd yn dilyn ôl troed Rachel.
- Bydd yr orsaf yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth y BBC i adolygu ei thrwydded gwasanaeth eleni.
- Bydd amserlen fore Sul newydd yn cynnwys rhaglen 90 munud gan BBC News - *Double Take* – a fydd yn cael ei chyflwyno gan Laura Kuenssberg a Sam Walker.
- Mae'r uchafbwyntiau chwaraeon yn cynnwys Cwpan y Byd Criced a Chwpan y Byd Rygbi, Pencampwriaeth Nofio'r Byd yn Shanghai a Phencampwriaeth Athletau'r Byd yn Ne Korea.
- Bydd 5 live yn dechrau symud i Salford ym mis Medi 2011, ac mae'n gobeithio y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd.

# BBC Radio 5 Live Sports Extra

Rhwydwaith rhan-amser yw BBC Radio 5 Live Sports Extra sy'n darparu rhaglenni chwaraeon ychwanegol drwy ddefnyddio hawliau sydd eisoes gan y BBC, gan ddarparu gwell gwerth i'r sawl sy'n talu ffi'r drwydded.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Fy uchelgais yw i Radio 5 live Sports Extra barhau i gyfrannu at gynyddu cynulleidfa radio digidol drwy gynnig mwy o ddewis ac amrywiaeth ehangach o chwaraeon byw i ddilynwyr chwaraeon. Yn ystod y flwyddyn y bydd yr orsaf yn adleoli i'w chartref newydd yn Salford, bydd Sports Extra yn parhau â'i hymrwymiad i fod yn hafan i'r sylwebaeth griced orau, o Test Match Special i'r criced undydd gorau, gan fanteisio ar ein tîm o sylwebwyr a chrynhowyr heb eu hail sydd wedi ennill gwobrau.

Bydd yr orsaf yn parhau â'i hymrwymiad i roi sylw i amrywiaeth eang o gampau nad ydynt yn cael cymaint o sylw a chwaraeon lleiafrifol, gan gynnwys campau'r gemau Olympaidd yn arbennig. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud y llynedd i ddarlledu mwy o raglenni chwaraeon menywod, gan gynnwys Ffeinal Cwpan yr F.A. y menywod a Chwpanau Criced a Rygbi y Byd y menywod. Byddwn yn ceisio datblygu'r ffordd y mae'r chwaraeon hyn yn cael eu darlledu a'r lleisiau sy'n sylwebu arnynt i ni.

Byddwn hefyd yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod gwrandawyr yn cael mwynhau i'r eithaf hawliau chwaraeon y BBC - o bêl-droed i dennis i golff. Cafwyd sawl achlysur yn y flwyddyn ddiwethaf lle y bu i Sports Extra helpu gwrandawyr a fethodd y sylw a roddwyd i ddigwyddiadau chwaraeon yn ystod y nos, gan sicrhau eu bod yn clywed yr eiliadau tyngedfennol drwy ddarlledu dolen o uchafbwyntiau. Byddwn yn parhau i geisio cynnig detholiad mor eang â phosibl o sylw chwaraeon pur i ddilynwyr chwaraeon.

**Adrian Van Klaveren, Rheolydd, BBC Radio 5 live Sports Extra**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasaneth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd 5 live Sports Extra yn dechrau symud i Salford ym mis Medi 2011, ac mae'n gobeithio y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd.

# BBC Radio 1Xtra

Mae BBC 1Xtra yn chwarae'r gerddoriaeth ddu gyfoes orau, gyda phwyslais cadarn ar ddarparu cerddoriaeth fyw o ansawdd uchel a chefnogi artistiaid newydd o'r DU.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Fy uchelgais yw gweld cynulleidfa BBC Radio 1Xtra yn parhau i dyfu, tra'n parhau yn wasanaeth unigryw sy'n ategu Radio 1.

Dechreuwyd 2011 drwy gyflwyno amserlen newydd gyffrous yn ystod y dydd sy'n cyfuno dau gyflwynydd ffres, newydd, Twin B a Gemma Cairney, gyda dau o'r cyflwynwyr cerddoriaeth ddu uchaf eu parch – Trevor Nelson a Westwood. Ynghyd â thîm 1Xtra o DJs arbenigol, byddant yn mynd ati i ddarganfod a helpu i gefnogi'r genhedlaeth nesaf o ddoniau o'r DU gan roi sylw i'r gerddoriaeth ddu orau newydd.

Byddaf hefyd yn herio timau cynhyrchu i greu rhaglenni unigryw gydag uchelgais tebyg i ymgais Record y Byd DJ Relay ac 1Xtra Live, gan ddarlledu ar draws yr amrywiaeth o fformatau digidol a ddefnyddir gan ein cynulleidfa.

**Andy Parfitt, Rheolydd, BBC Radio 1Xtra**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasaneth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Byddwn yn gweithio'n galed i ddatblygu *Breakfast Show* Twin B, ynghyd â rhaglenni unigol Trevor Nelson a Gemma Cairney, a gyflwynir ym mis Ionawr.

- Bydd ein rhaglenni arbenigol yn cael sylw drwy neilltuo dyddiau arbennig, gyda chyfle i wrandawyr yn ystod y dydd dreiddio'n fwy dwfn i wahanol arddulliau cerddorol.

- Bydd y gyfres o raglenni dogfen 1Xtra Stories yn nodi 30 mlynedd ers marwolaeth Bob Marley, yn bwrw golwg ar sin cerddorol Mecsico gydag International 1Xtra ac yn darlledu rhaglen a fydd yn ymchwilio i'r defnydd o steroidau.

- Byddwn yn ceisio cynyddu'r ymwybyddiaeth o 1Xtra ymhellach gyda chalendr amrywiol o ddigwyddiadau yn amrywio o ran maint o'n prif ddigwyddiad, sef *1Xtra Live*, i nosweithiau llai, mwy arbenigol fel *Soundclash*.

- *Dubstep Symphony* fydd un o'r uchafbwyntiau ym mis Mehefin, a ddarlledir gyda Radio 1, sef prosiect unigryw ar y cyd rhwng Nero, y cynhyrchwyr cerddoriaeth electronig, a Ffilharmonig y BBC.

- Ar-lein, bydd pwyslais ar gynnwys gweledol a sain ffurf-cryno, wedi'i deilwra a'i ddarparu mewn ffordd a fydd yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd ar gyfer 1Xtra.

# BBC 6 Music

Nod BBC 6 Music yw difyrru pawb sydd wrth eu bodd â cherddoriaeth boblogaidd drwy gynnig y gerddoriaeth orau o archif sain y BBC ynghyd â chynnyrch newydd, heb fod yn brif ffrwd, gyda newyddion a rhaglenni dogfen am gerddoriaeth.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Fy uchelgais yw gweld BBC Radio 6 Music yn ennill ei phlwyf ymysg portffolio cerddoriaeth boblogaidd BBC, fel y trydydd o'n rhwydweithiau cerddoriaeth boblogaidd, ochr yn ochr â BBC Radio 1 a BBC Radio 2. Bydd yn parhau'n wasanaeth unigryw, tra'n tyfu y tu hwnt i'w 1.2 miliwn o wrandawyr ffyddlon 37 oed ar gyfartaledd.

Bydd 6 Music hefyd yn rhoi cyfle i'r diwydiant cynhyrchu radio annibynnol helpu i greu canolfan ragoriaeth greadigol yn Salford, mewn partneriaeth â'n timau mewnol, pan fydd cynhyrchu annibynnol yn cynyddu erbyn mis Mawrth 2012. Bydd presenoldeb Radcliffe a Maconie ar 6 Music hefyd yn codi ein tîm dawnus lefel yn uwch.

Bydd y rhwydwaith yn parhau i feithrin ei pherthynas gadarn â'r diwydiant cerddoriaeth, yn arbennig artistiaid a bandiau sy'n cynnig rhywbeth gwahanol i'r brif ffrwd. Bydd cerddoriaeth fyw yn parhau'n nodwedd allweddol o'i phersonoliaeth ac rwy'n gobeithio gallu crisialu'r adegau hyn yn llawer amlach.

**Bob Shennan, Rheolydd, BBC 6Music**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasaneth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd ymgyrch farchnata newydd ym mis Ebrill yn defnyddio 'Trusted Guides' allweddol y rhwydwaith i gerddoriaeth i helpu i egluro at bwy mae'r rhwydwaith yn apelio. Rydym yn gwneud hyn fel ymateb uniongyrchol i argymhellion gan Ymddiriedolaeth y BBC i ganolbwyntio ar frîff y gwasanaeth.

- Rydym bellach yn defnyddio darlledwyr cerddoriaeth go iawn yn hytrach na DJs sy'n enwogion, gyda Radcliffe a Maconie yn symud o Radio 2 i 6 Music ym mis Ebrill. Bydd Adam a Joe hefyd i'w clywed mewn rhaglen newydd yn 2011.

- Byddwn yn comisiynu mwy o raglenni dogfen ar y cyd â BBC Radio 2, a bydd y rhain yn cael eu darlledu am y tro cyntaf ar 6 Music yn aml. Bydd doniau Radio 2 perthnasol gyda sioeau newydd ar Radio 2 a 6 Music yn helpu i godi ymwybyddiaeth. Mae'r sioeau hyn yn cynnwys Huey Morgan, Mark Radcliffe a chyfres arloesol 50 rhan ar gyfer Radio 2 gyda Stuart Maconie. Bydd rhaglen Radio 2 Steve Lamacq yn parhau, yn ogystal â'i raglen yn ystod yr wythnos ar 6 Music.

- Bydd rhaglen newydd Radcliffe a Maconie yn ystod dyddiau'r wythnos yn cael ei chynhyrchu'n annibynnol, ynghyd â sioe frecwast y penwythnos. Bydd cyfanswm yr oriau cynhyrchu annibynnol oddeutu 20% erbyn mis Mawrth 2012.

# BBC Radio 4 Extra

Mae Radio 4 Extra yn darparu adloniant ar ffurf sgwrs, gan gynnwys rhaglenni comedi, nodwedd, drama a darlleniadau, ynghyd â rhaglenni ar gyfer plant. Mae'r rhan fwyaf o gynnyrch o archif y BBC, er ei bod hefyd yn comisiynu rhywfaint o gynnwys gwreiddiol.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Lansiwyd Radio 7 yn 2002 a bellach mae'n un o orsafoedd mwyaf llwyddiannus portffolio radio digidol y BBC. Gyda'r rhwydwaith yn cael ei ail-frandio o Radio 7 i Radio 4 Extra, rywf am gadw ein gwrandawyr ffyddlon a denu cynulleidfa newydd i radio adloniant ar ffurf sgwrs.

Byddwn yn ceisio cynyddu ein cynulleidfa o filiwn drwy barhau i ddewis y gorau o raglenni drama a chomedi gyda gwerthoedd cynhyrchu uchel a fydd yn ymgysylltu, yn swyno ac yn difyrru'r gynulleidfa. Er mwyn cynnal natur unigryw'r rhwydwaith, bydd deunydd archif yn cael ei ail-becynnu'n greadigol; er enghraifft, bydd perfformwyr/cyfranwyr yn cyflwyno a thrafod rhaglenni a thymhorau, gan eu gosod mewn cyd-destun cyfoes.

Fel rhwydwaith adloniant archif yn bennaf, byddwn yn parhau i roi'r cyfle i wrandawyr fwynhau hen ffefrynnau - clasurol a chyfoes - o archifau'r BBC. Byddwn hefyd yn dod â chwa o awyr iach i'r amserlen drwy gomisiynu a chaffael rhaglenni newydd mewn genres poblogaidd i ategu'r archif, gan roi mwy o'r hyn y maent am ei glywed i'r gwrandawyr.

**Gwyneth Williams, Rheolydd, Radio 4 Extra**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasaneth yn ystod y flwyddyn nesaf

Mae lansio Radio 4 Extra yn foment gyffrous i gynulleidfaoedd radio'r BBC ac yn gosod y sylfaen i gyflawni nodau Rhoi Ansawdd yn Gyntaf. Bydd Radio 4 Extra yn rhoi llwyfan i nifer o raglenni mwyaf poblogaidd Radio 4, tra'n cadw'n driw i wreiddiau Radio 7 fel gorsaf adloniant nad yw'n fyw. Mae elfennau craidd datblygiad Radio 4 Extra yn cynnwys:

- Cysylltiadau golygyddol agosach â Radio 4, gan gynnwys fersiynau estynedig o raglenni poblogaidd wythnosol Radio 4 (e.e. *The Now Show* a *The News Quiz*), darlledu rhai cyfresi comedi cyn eu darlledu ar Radio 4, a'r cyfle i ddal i fyny gyda chomedi ar Radio 4.

- Bydd rhaglen gylchgrawn newydd ar gomedi, *What's So Funny?*, yn cael ei lansio a fydd yn rhoi blas ar raglenni comedi a digwyddiadau'r wythnos sydd i ddod, a bydd yn frith o gyfweliadau gyda pherfformwyr comedi.

- Byddwn yn ail-fformadu rhaglenni plant, gan ganolbwyntio ar raglenni sy'n apelio at deuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys cyfres gylchgrawn ddyddiol, The 4 O'Clock Show, a fydd yn cynnwys cwisiau, clipiau comedi, cyfweliadau a straeon.

- Slot drama glasurol newydd ar gyfer pobl ifanc ar benwythnosau a fydd yn cynnwys dramateiddiadau o hen ffefrynnau fel *Chitty, Chitty, Bang, Bang, The Wizard of Oz* a *The Silver Sword*.

- Gan adeiladu ar un o frandiau mwyaf poblogaidd Radio 4, sef *The Archers*, byddwn yn cyflwyno cyfres ddrama newydd ddwywaith yr wythnos a fydd yn dilyn hynt a helynt rhai o'r cymeriadau, sef *Ambridge Extra*.

- Byddwn yn dyblu ein hymdrech i groes hyrwyddo o Radio 4 gyda'r nod o hybu ymwybyddiaeth a samplu. Byddwn yn gwneud hyn drwy drefnu'n hamserlenni'n well a gwell cydlynu yn ystod tymhorau a fydd yn cael cryn sylw a phen-blwyddi.

- Byddwn yn ail-frandio'r orsaf yn Radio 4 Extra er mwyn cyflymu'r llwyddiant drwy ddefnyddio brand cyfarwydd ac uchel ei barch.

# BBC Asian Network

Mae BBC Asian Network yn darparu rhaglenni llafar a cherddoriaeth sy'n apelio at gymunedau Asiaidd Prydain, gan ganolbwyntio ar newyddion a materion cyfoes. Mae'n darlledu yn Saesneg yn bennaf, ond mae'n cynnig rhai rhaglenni mewn ieithoedd eraill.

Mae'r Datganiad o Bolisi Rhaglenni hwn wedi'i ysgrifennu ar ôl y penderfyniad i gynnwys dyfodol yr Asian Network ym mhrosiect *Delivering Quality First*. Mae hyn wedi cymryd lle Adolygiad Strategol y BBC ym mis Mawrth 2010 a nododd y dylid cau'r Asian Network fel gwasanaeth DAB cenedlaethol.

Yn dilyn cynnydd yn y gynulleidfa o 25 y cant yn 2010, mae cynnig i'r gwasanaeth barhau yn wasanaeth cenedlaethol am gyfnod pellach. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y gost y gwrandäwr yr awr yn cael ei gostwng i gydymffurfio'n fwy â rhwydweithiau digidol eraill drwy gynyddu cyrhaeddiad ac oriau wythnosol, a gostwng costau.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Mae'r BBC yn llunio ei phrif opsiwn ar gyfer dyfodol yr Asian Network a bydd y cynlluniau hynny'n cael eu cyflwyno i Ymddiriedolaeth y BBC i'w cymeradwyo yn ystod y flwyddyn. Mae cyfleoedd cyffrous i wasanaethu cynulleidfa Asiaidd Prydain a'm gweledigaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf yw parhau i gynyddu a gwella'n darpariaeth tra'n paratoi ein hunain ar gyfer canlyniad yr adolygiad hwn. Rwyf am i ni adeiladu ar y twf o ran cyrhaeddiad ac oriau a welwyd yn 2010 drwy atgyfnerthu llwyddiant ein rhaglenni yn ystod y dydd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ein rhaglen frecwast lwyddiannus gyda Tommy Sandhu. Byddwn hefyd yn ceisio meithrin ein henw da fel cyrchfan i gymunedau Asiaidd ddod at ei gilydd i ganfod mwy am eu hunain ac am ei gilydd, ac i drafod eu pryderon a'u syniadau'n agored. O ran cerddoriaeth, gwyddom ein bod yn rhan allweddol o sin Gerddoriaeth Asiaidd Prydain ac rydym am barhau i gefnogi artistiaid mewn cyfnod anodd i'r diwydiant.

**Andy Parfitt, Rheolydd, BBC Asian Network**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasaneth yn ystod y flwyddyn nesaf

Bydd y penderfyniadau terfynol am ddyfodol yr Asian Network yn cael eu gwneud yn y flwyddyn nesaf. Bydd y rheolwyr yn ceisio sicrhau bod yr orsaf yn barod ar gyfer y canlyniad hwn. Yn benodol, byddwn yn ceisio adeiladu ymhellach ar ein twf yn 2010/11 a pharhau i ennill ein plwyf gyda chymunedau Asiaidd y DU:

- Parhau i gynyddu cyrhaeddiad drwy ganolbwyntio ar gynnwys sy'n berthnasol i gymunedau Asiaidd Prydain, tra'n cynnal ansawdd a natur unigryw y cynnyrch.

- Pwyso a mesur yr amserlen i sicrhau effeithlonrwydd tra'n parhau i adlewyrchu'r strategaeth o fod yn 'ffrind i'r teulu' a dathlu'r gorau o ddiwylliant Asiaidd y DU.

- Byddwn yn ceisio ehangu amrywiaeth y rhaglenni sy'n dod yn uniongyrchol o gymunedau Asiaidd. Bydd hyn yn cynnwys Melas ar gyfer cerddoriaeth ac adloniant, ond byddwn yn ceisio mynd â chyfres o raglenni byw eraill ar y lôn fel rhan o ymgyrch i gysylltu'n agosach â chynulleidfaoedd.

- Mis 'Get Healthy'. Ym mis Mai rydym yn bwriadu cynnal mis o raglenni i helpu cymunedau Asiaidd i ddeall pam eu bod yn dioddef llawer o afiechydon yn fwy nag eraill – a'u helpu i ganfod ffyrdd o wella eu hiechyd eu hunain a'u teuluoedd.

- Digwyddiadau 'In Conversation' gyda sêr Asiaidd a mwy o arlwy Botwm Coch.

- Rhaglenni dogfen yn ymchwilio i bynciau sy'n poeni cymunedau Asiaidd y DU.

# BBC Ar-lein

Mae BBC Ar-lein yn darparu cynnwys ar-lein arloesol ac unigryw sy'n adlewyrchu ac yn ymestyn amrywiaeth gwasanaethau darlledu'r BBC.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Bydd cynllun dwy flynedd i weithredu'r strategaeth newydd ar gyfer BBC Ar-lein yn dechrau ym mis Ebrill 2011. Bellach, bydd BBC Ar-lein yn cynnwys deg cynnyrch[1], pob un â chylch gwaith clir, disgwyliadau o ran y gwerth cyhoeddus a gynhyrchir, targedau clir, cyllideb ategol a strwythur sefydliadol.

Yn ogystal â datblygu deg o gynhyrchion, rydym yn rhoi pwyslais ar nifer fechan o weithgareddau ledled y BBC, a fydd gyda'i gilydd yn sicrhau gwasanaeth gwerth chweil. Bydd talwyr ffi'r drwydded yn raddol fwynhau profiad gweledol mwy cyson o ansawdd uwch pa bynnag ddyfais y defnyddiant i gyrchu cynnwys y BBC ar y rhyngrwyd. Byddant hefyd yn canfod cysylltiadau mwy hygyrch a pherthnasol rhwng BBC Ar-lein a gwefannau neu wasanaethau eraill ar y we.

Mae'r newidiadau hyn a newidiadau eraill yn deillio'n uniongyrchol o weithredu egwyddorion adolygiad strategol ehangach y BBC ar hyd a lled y gorfforaeth - rhoi ansawdd yn gyntaf, gwneud llai o bethau'n well, sicrhau mynediad, gwneud i ffi'r drwydded weithio'n galetach a gosod ffiniau newydd - a rheiny'n rhai llym i BBC Ar-lein.

**Andy Conroy, Rheolwr Cyffredinol BBC Ar-lein**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Atgyfnerthu'r gwasanaeth ar sail llai o gynhyrchion: bydd BBC Ar-lein yn ymddangos ar ei newydd wedd yn ystod 2011/12, gan ganolbwyntio ar ddeg o gynhyrchion i'r gynulleidfa[4], gan roi gwell eglurder ac ystyr i brofiad y gynulleidfa. Mae'r deg o gynhyrchion wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd:
  - ailwampio cynhyrchion cyfredol: Hafan, Chwaraeon, CBBC
  - datblygu cynhyrchion newydd: Teledu ac iPlayer, Radio a Cherddoriaeth, Gwybodaeth a Dysgu

- Y paratoadau ar gyfer Llundain 2012: mae 2011/12 yn flwyddyn bwysig o baratoi ar gyfer ein sylw i Gemau Olympaidd Llundain. Bydd y gwaith o ddatblygu Llundain 2012 yn cael ei gwblhau i bob diben yn ystod y flwyddyn.

- Ehangu gorwelion (gwe-lywio cyd-destunol): Bydd uchelgais 'ehangu gorwelion' yn dechrau ymddangos ar draws darpariaeth BBC Ar-lein. Bydd defnyddwyr yn canfod cysylltiadau mwy hygyrch rhwng cynhyrchion ar BBC Ar-lein, yn ogystal â rhwng adrannau o BBC Ar-lein a gwefannau a gwasanaethau eraill ar y we.

- Darparu Rhifynnau (gan gynnwys rhifynnau Rhanbarthol): Bydd y gallu i gyhoeddi Rhifynnau o gynhyrchion, wedi'u teilwra yn unol â safbwyntiau defnyddwyr (e.e. rhifynnau Rhanbarthol o gynhyrchion BBC Ar-lein), yn cael ei ddarparu. Yr enghraifft gyntaf o hyn fydd rhyddhau fersiwn newydd o'r Hafan.

- Cymwysiadau a fersiynau aml-lwyfan o gynhyrchion: Yn dilyn lansio'r cymhwysiad Newyddion yn 2011/11, byddwn yn datblygu mwy o gymwysiadau ar gyfer llwyfannau symudol ac IPTV yn 2011/12, gan optimeiddio'r set o gynhyrchion ar draws y llwyfannau a'r dyfeisiau. Bydd y rhain yn cynnwys Chwaraeon a Theledu ac iPlayer.

---

[4] Hafan, Newyddion, Chwaraeon, Teledu ac iPlayer, Chwilio, Tywydd, Radio a Cherddoriaeth, Gwybodaeth a Dysgu, CBBC, CBeebies

- Datblygu mwy o nodweddion a fydd i'w gweld ar BBC Ar-lein drwyddo draw: bydd BBC Ar-lein yn darparu BBC Ar-lein cyfoethocach a mwy cyson i gynulleidfaoedd drwy nodweddion fel argaeledd ar draws llwyfannau, personoleiddio, rhannu drwy rwydweithiau cymdeithasol, cymorth ar gyfer ieithoedd lluosog (o fewn y DU a gweddill y byd), ac amrywiaeth unigryw o nodweddion hygyrchedd. Yn 2011/12 bydd cynnydd yn cael ei wneud hefyd drwy resymoli a rhoi'r gorau i nifer o systemau technegol i ni eu hetifeddu, er mwyn hwyluso'r gwaith o ddatblygu cynnyrch a nodweddion.

# Botwm Coch y BBC

Mae Botwm Coch y BBC yn darparu gwasanaethau a chynnwys rhyngweithiol i wylwyr teledu digidol, gan gynnwys y cynnwys a'r wybodaeth ddiweddaraf gydol y dydd a'r nos, gan gynnwys newyddion, tywydd, dysgu, adloniant, rhaglenni rhyngweithiol a sylw i ddigwyddiadau mawr. Dylai hefyd fod yn bwynt mynediad a gwe-lywio i gynnwys teledu a radio anllinol y BBC.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Bu twf sylweddol yng ngwasanaeth Botwm Coch y BBC yn 2011, ond mae'n wynebu sawl her eleni wrth i gapasiti darlledu barhau'n werthfawr tu hwnt. Yn 2011, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y gweithgareddau a werthfawrogir fwyaf gan gynulleidfaoedd, h.y. darpariaeth cynnwys newyddion a gwybodaeth drwy destun digidol, a sylw ychwanegol i ddigwyddiadau byw pwysig.

Gyda nifer cynyddol o setiau teledu bellach yn cysylltu â'r Rhyngrwyd, rydym yn bwriadu adeiladu ar ein llwyddiant yn 2010 i addysgu cynulleidfaoedd am fanteision cysylltedd a gall y Botwm Coch ddarparu pont bwysig i'r dyfodol yn hyn o beth: o ddarparu gwasanaeth BBC iPlayer cyson a chydlynol ar draws dyfeisiau a llwyfannau teledu cysylltiedig yn unol â chanllawiau syndicetio i ddatblygu'r 'botwm coch' fel y cyswllt rhwng rhaglenni llinol, rhyngweithiol ac ar-alw y BBC i helpu gwylwyr i ddarganfod mwy o'n portffolio cyfredol ac archifol.

Byddwn hefyd yn archwilio potensial gwasanaethau sgrin ategol i arddangos ein cynnwys ar-lein sy'n ategu' n rhaglenni.

**John Denton, Rheolwr Olygydd , Llwyfannau teledu**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Newyddion: Parhau i ddarparu mynediad cyffredinol i newyddion, tywydd a gwybodaeth barhaus drwy destun digidol a fideo fel y gellir cyrchu Newyddion aml-gyfrwng heb ei ail y BBC.
- Paratoadau ar gyfer 2012: Wrth i Brydain edrych ymlaen at gemau 2012, byddwn yn dangos chwaraeon Olympaidd o bedwar ban byd, yn enwedig y campau y bydd Tîm Prydain Fawr yn cystadlu ynddynt. Byddwn yn helpu i ddod â'r genedl ynghyd i ddathlu'r paratoadau cyffrous at 2012.
- Plant: Gan ychwanegu at ein darpariaeth gyffrous ar gyfer plant, byddwn yn archwilio sut y bydd gwasanaethau newydd a ddarperir ar y teledu drwy'r Rhyngrwyd yn caniatáu mynediad ehangach i bortffolio'r BBC o gynnwys plant, gan gynnwys dolenni i CBeebies iPlayer lle'n briodol.
- Cerddoriaeth i Bawb: Byddwn yn parhau i ddarparu amrywiaeth rhagorol o gerddoriaeth ar gyfer pob oedran a chwaeth, o Sesiynau Radio a Theledu i'n darllediadau heb eu hail o wyliau cerddoriaeth, gan gynnwys T in the Park yn yr Alban, Penwythnos Mawr Radio 1, Glastonbury, y Proms a rhaglenni cerddoriaeth amgen yn 2012 pan na fydd Glastonbury.
- Y Botwm Coch Ar-alw: Byddwn yn creu profiadau arloesol ar lwyfannau, technolegau a dyfeisiau newydd sy'n cynnig manteision cyfryngau wedi'u ffrydio i gynulleidfaoedd, gan gynnwys galluoedd ar-alw os ydynt ar gael i wella cynnyrch fel Music Showcase. Byddwn hefyd yn dechrau edrych ar y ffordd o drosi strategaeth Gwybodaeth a Dysgu Ar-lein y BBC i fyd teledu cysylltiedig.
- Dathlu'r Teulu: Cefnogi digwyddiadau teledu yn yr amserlen gyda chwisiau chwarae o gartref sy'n hoelio sylw'r gynulleidfa a gwell nodweddion sy'n helpu i ddathlu noson o flaen y teledu; gan gynnwys digwyddiadau allweddol fel yr Eurovision Song Contest ac ehangu ein hopsiynau i gyd-ganu lle'n briodol.

# BBC News Channel

Mae'r BBC News Channel yn darparu'r newyddion diweddaraf yn gywir, diduedd ac annibynnol ac yn rhoi sylw cynhwysfawr i ddigwyddiadau lleol, rhanbarthol, yn y DU a rhyngwladol. Mae'n cynnig dadansoddiadau arbenigol o'r straeon pwysicaf gan roi'r newyddion yn ei gyd-destun.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Fy uchelgais yw i'r BBC News Channel barhau i fod y sianel newyddion fwyaf poblogaidd yn y DU, a pharhau i gael ei hystyried gan y gynulleidfa fel y lle "gorau am newyddion parhaus", gydag arddull cyflwyno a naws awdurdodol a diddorol.

Yn ogystal â rhoi sylw cyflym o ansawdd uchel i ddigwyddiadau yn y DU ac ym mhedwar ban byd, bydd y sianel yn rhoi sylw cynhwysfawr i'r llywodraeth glymblaid newydd a'r gwrthbleidiau ac yn egluro ystyr eu polisïau i'r DU. Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio'n agos â'r Gwledydd a Rhanbarthau Lloegr i roi sylw i'r etholiadau a'r wleidyddiaeth ddatganoledig ledled y DU, gan adlewyrchu pwysigrwydd yr agenda ddatganoledig.

Byddwn yn rhoi sylw i brif ddigwyddiadau'r byd, gan ddefnyddio'n gallu i gasglu newyddion a'n cyflwynwyr ar leoliad gan egluro eu cyd-destun ac arwyddocâd i'n cynulleidfa. Yn nes i gartref, byddwn yn parhau i dreiddio i faterion llosg y dydd gan eu dadansoddi, yn enwedig cyflwr yr economi a thoriadau yn y sector cyhoeddus.

Byddwn hefyd yn ceisio rhoi sylw eang i'r celfyddydau, gwyddoniaeth a chwaraeon, yn arbennig y paratoadau ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain 2012.

**Kevin Bakhurst, Rheolydd, BBC News Channel**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Byddwn yn darlledu rhaglenni arbenigol i ddathlu Priodas Frenhinol y Tywysog William a Kate Middleton, a hefyd yn nodi dengmlwyddiant 9/11.
- Bydd sylw cynhwysfawr i'r paratoadau ar gyfer etholiadau cynghorau Lloegr; etholiadau Senedd yr Alban; etholiadau cynulliadau Cymru a Gogledd Iwerddon a'r Bleidlais Amgen.
- Gydol y flwyddyn byddwn yn rhoi sylw i'r paratoadau ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharaolympaidd Llundain 2012, gan gynnwys "One Year to Go" a Nos Galan.
- Byddwn yn gweithio gyda gwefan BBC News i ddatblygu ac adeiladu'r Dudalen Fyw (fideo a thestun) ar gyfer digwyddiadau pwysig.
- Byddwn hefyd yn parhau i archwilio'r cyfleoedd a ddaw yn sgil technoleg newydd i sianeli newyddion, fel Twitter, gyda chynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr.

# BBC Parliament

Nod BBC Parliament yw rhoi gwaith siambrau seneddol a chyrff deddfwriaethol y DU a Senedd Ewrop o fewn cyrraedd pawb, a dadansoddi'r pynciau llosg a'r wleidyddiaeth y tu ôl i ddadleuon seneddol, a'u rhoi yn eu cyd-destun.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Aeth BBC Parliament o nerth i nerth y llynedd ac rwyf am adeiladu ar y perfformiad hwnnw gyda rhaglenni a sylw i ddadleuon sy'n cynorthwyo gwylwyr i ddeall ac ymgysylltu â'r hinsawdd wleidyddol sy'n newid yn gyflym. Byddwn hefyd yn datblygu rhaglenni mwy esboniadol i ddiwallu anghenion ein cynulleidfa gynyddol.

Rwyf hefyd am i BBC Parliament ddatblygu ochr yn ochr â Democracy Live, er mwyn i ddefnyddwyr y ddau wasanaeth gael mynediad i'r amrywiaeth ehangaf o raglenni byw a rhaglenni wedi'u recordio, gwybodaeth gefndir werthfawr a medru dilyn hynt a helynt eu cynrychiolwyr etholedig yn y Senedd.

Gan fanteisio ar lwyddiant ein sylw cynhwysfawr i'r Etholiad Cyffredinol y llynedd, byddwn yn cynnig sylw eang i ymgyrchoedd etholiadol eleni yn Holyrood, Stormont a Bae Caerdydd ac yn dadansoddi cynnwys deddfwrfeydd newydd a'u perthynas newidiol â San Steffan. Byddwn hefyd yn archwilio agweddau hanesyddol a diwylliannol ar ein democratiaeth seneddol mewn rhaglenni arloesol newydd.

**Peter Knowles, Rheolydd, BBC Parliament**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Yn 2011/12, bydd San Steffan yn ysgwyddo llwyth gwaith enfawr o Fesurau i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus (iechyd, ysgolion, lleoliaeth a'r heddlu) a'r cyfansoddiad (seneddau tymor penodol, cynnwys Tŷ'r Arglwyddi a'r hawl i ail-alw AS). Byddwn yn darparu'r cyd-destun i ddeall y rhaglen ddeddfwriaethol gymhleth hon drwy destun ar-sgrin a chyfweliadau ar The Record Review.

- Bydd BBC Parliament yn dangos cynadleddau newyddion gan ymgyrchwyr yn y refferendwm i newid y system bleidleisio i ethol ASau.

- Bydd y darlithoedd a'r trafodaethau yn yr Ŵyl Wleidyddiaeth, o Gaeredin, yn ystyried y dirwedd wleidyddol newydd ar ôl etholiadau mis Mai.

- I ddathlu canmlwyddiant Deddf Senedd 1911, bydd cyfres o ddarlithoedd y Llefarydd yn pwyso a mesur rhai o ffigyrau seneddol amlycaf y ganrif ddiwethaf. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys y Farwnes Williams ar Lady Astor, Syr Nicholas Soames ar Churchill a Tristram Hunt ar Tony Benn.

- 70 mlynedd ar ôl i fomwyr yr Almaen ddinistrio Tŷ'r Cyffredin, byddwn yn bwrw golwg ar yr hyn a ddigwyddodd ar 12 Mai 1941 ac ar y blynyddoedd o ailadeiladu.

- Er mwyn cyflawni cynlluniau'r BBC i ddarlledu o'r Gemau Olympaidd, bydd angen defnyddio lled band BBC Parliament yn ystod y digwyddiad.

# Gorsafoedd Radio Lleol y BBC yn Lloegr

Gwasanaeth newyddion, gwybodaeth a thrafodaeth llafar yw Radio Lleol y BBC yn bennaf, gyda phwyslais cadarn ar ryngweithio.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Mae Radio Lleol y BBC yn rhoi llais i gymunedau yn Lloegr. Mewn tirwedd radio lle mae gorsafoedd masnachol yn cryfhau ac yn dod yn llai lleol, credaf fod gwasanaeth llafar sy'n adlewyrchu ardaloedd, sy'n darparu llwyfan ar gyfer eu pynciau llosg ac yn cynnig trafodaeth ddeallus yn bwysicach nag erioed.

Eleni byddwn yn canolbwyntio ar wella swm a sylwedd ein darpariaeth lafar. Yn sgil y gwaith a wnaed eisoes, mae nifer ein cynulleidfaoedd wedi tyfu dros bum chwarter yn olynol. Bydd Coleg Newyddiaduraeth y BBC yn parhau i ddarparu cymorth strwythuredig ar gyfer datblygu newyddion, materion cyfoes a thrafodaethau ganol bore a diwedd prynhawn.

Byddwn yn parhau i feithrin perthynas agosach â'n deunydd ar-lein gan ddefnyddio mwy o gyfryngau cymdeithasol sy'n cynnig cyfleoedd newydd gwerthfawr i'n gorsafoedd ganfod straeon a chysylltu â gwrandawyr newydd drwy'r rhyngrwyd.

**David Holdsworth, Rheolydd, Rhanbarthau Lloegr**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd Radio Lleol y BBC yn gwerthuso prosiectau peilot sydd ar waith mewn dau ranbarth i rannu rhaglenni rhwng gorsafoedd cyfagos yn ystod y prynhawn.

- Mae prosiect ar waith i gynyddu lefel yr adnoddau a neilltuir i raglenni canol y bore, gyda ffocws cynyddol ar gynnwys gwrandawyr mewn trafodaethau ar bynciau llosg y dydd.

- Bydd adolygiad o fwletinau newyddion ar draws pob gorsaf yn ceisio gwella safonau cynhyrchu ac amrywiaeth y cynnwys ymhellach.

- Bwriedir sicrhau gwell cydgysylltu a hyrwyddo rhwng radio lleol a radio'r rhwydwaith hefyd ar ôl llwyddiant prosiectau peilot, er enghraifft ymchwiliad "Living Longer" i'r boblogaeth sy'n heneiddio ar y cyd ag *You and Yours* ar Radio 4.

- Ers dechrau 2011, mae gan bob gorsaf Radio Lleol y BBC raglen arbennig sydd â'r nod o wneud cyrff cyhoeddus fel y cynghorau, yr heddlu, asiantaethau a chwangos yn uniongyrchol atebol drwy gynnig rhaglenni ffonio i mewn, trafodaethau a rhaglenni eraill. Rydym yn eiddgar i'r rhain fod yn gonglfeini i Radio Lleol sy'n cefnogi dinasyddiaeth weithredol a democratiaeth leol.

## Gorsafoedd Radio Lleol y BBC yn Lloegr

| | | | |
|---|---|---|---|
| BBC Radio Berkshire | BBC Guernsey | BBC Radio Manchester | BBC Somerset |
| BBC Radio Bristol | BBC Hereford & Worcester | BBC Radio Merseyside | BBC Radio Stoke |
| BBC Radio Cambridgeshire | BBC Humberside | BBC Newcastle | BBC Radio Suffolk |
| BBC Radio Cornwall | BBC Jersey | BBC Norfolk | BBC Surrey |
| BBC Coventry & Warks | BBC Kent | BBC Radio Northampton | BBC Sussex |
| BBC Radio Cumbria | BBC Radio Lancashire | BBC Radio Nottingham | BBC Tees |
| BBC Radio Derby | BBC Radio Leeds | BBC Oxford | BBC Three Counties Radio |
| BBC Devon | BBC Radio Leicester | BBC Radio Sheffield | BBC Wiltshire |
| BBC Essex | BBC Lincolnshire | BBC Radio Shropshire | BBC WM |

| | | | |
|---|---|---|---|
| BBC Gloucestershire | BBC London | BBC Radio Solent | BBC Radio York |

Mae yna 40 o orsafoedd Radio Lleol yn Lloegr, yn ogystal â gwasanaethau eithrio ar gyfer Dorset (Solent), Milton Keynes (Three Counties), Peterborough a'r Ffeniau (Cambridgeshire), Swindon (Wiltshire) a Plymouth (Devon).

# BBC Radio Scotland

Gwasanaeth llafar yn bennaf i oedolion yw BBC Radio Scotland, gyda genres amrywiol yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl yr Alban.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Yn ystod y flwyddyn nesaf rwyf am weld BBC Radio Scotland yn adeiladu ar lwyddiant y newidiadau a gyflwynwyd i'r amserlen yn y deuddeg mis diwethaf. Sbardunwyd y newidiadau hyn gan yr hyn a ddywedodd gwrandawyr wrthym yn ystod prosiect ymchwil eang i'r gynulleidfa. Roedd y gwrandawyr hynny am glywed mwy o gyflwynwyr blaenllaw yn ystod y dydd ac am i'r fformatau a'r cyflwynwyr yn y rhaglenni llafar fin nos gael eu hail-wampio.

Mae cyflwynwyr fel Kaye Adams a John Beattie eisoes yn ein helpu i ddenu cynulleidfaoedd mwy ac mae llawer o wrandawyr yn teimlo bod ganddynt gysylltiad emosiynol cryfach â'r orsaf yn awr. Yn yr un modd, mae lleisiau newydd fel Ricky Ross a Bruce McGregor wedi dod ag arbenigedd a brwdfrydedd newydd i'n rhaglenni cerddoriaeth ac wedi helpu i ateb yr alwad gan ein cynulleidfa am raglenni sy'n adlewyrchu'r Alban gyfoes.

Yn y misoedd nesaf rwy'n gobeithio y gallwn gynnig mwy o raglenni o ansawdd uchel ymhob genre, gan gynnwys comedi, drama a rhaglenni dogfen ffeithiol. Er bod ein rhaglenni chwaraeon eisoes yn boblogaidd iawn, byddwn yn parhau i adolygu fformatau.

Mae BBC Radio Scotland yn gwasanaethu ei gwrandawyr orau ar adegau o argyfwng neu wrth i newyddion dorri a byddwn yn datblygu ein gwybodaeth newyddiadurol a'n gwasanaeth tywydd i sicrhau bod gennym y gallu i ymateb i ddigwyddiadau sy'n datblygu bob awr o'r dydd.

**Ken MacQuarrie, Cyfarwyddwr, BBC Scotland**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd BBC Radio Scotland yn manteisio ar adnoddau ystafell newyddion 24/7 i lansio rhaglen 'brîff newyddion' fyw ben bore.
- Byddwn yn rhoi sylw eang i ymgyrch etholiadol Senedd yr Alban a'i chanlyniadau yn ystod mis Ebrill a Mai 2011 a bydd ein rhaglenni'n cynnwys newyddion, dadansoddi, trafodaethau a chyfle i wrandawyr gymryd rhan.
- Bydd ein rhaglenni chwaraeon yn dilyn cystadleuwyr o'r Alban wrth iddynt baratoi ar gyfer y Gemau Olympaidd a Gemau'r Gymanwlad. Byddwn yn pwyso a mesur effaith y paratoadau ar Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow.
- Byddwn yn lansio cyfres bwysig yn archwilio hanes a dyfodol prifysgolion yr Alban.
- Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni comedi, drama a newyddiaduraeth wreiddiol o ansawdd, gan wneud ein gorau glas i gynnwys ac adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth yr Alban mewn ardaloedd trefol a gwledig.
- Bydd tymhorau arbennig ac wythnosau thematig yn cynnwys pynciau fel y gymuned Bacistanaidd yn yr Alban a syniadau o dadolaeth a gwrywdod yng nghymdeithas yr Alban.

# BBC Radio nan Gàidheal

Mae Radio nan Gàidheal yn cynnig gwasanaeth llafar a cherddoriaeth ar gyfer siaradwyr Gaeleg, gan gynnig amrywiaeth eang o genres sy'n adlewyrchu pynciau llosg, digwyddiadau, diwylliannau a diddordebau pobl yr Alban.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd Radio nan Gàidheal yn parhau i wasanaethu ei chynulleidfa yn ei rôl unigryw fel gwasanaeth lle gellir siarad a chlywed Gaeleg bob diwrnod.

Y llynedd, cyflwynwyd Feasgar, y rhaglen amser cinio gyda Cathy MacDonald. Eleni, bydd Radio nan Gàidheal yn ceisio darparu mwy o amrywiaeth nag erioed yn ei hamserlenni, gan ymgysylltu â grwpiau oedran amrywiol drwy ddatblygu ei defnydd o gyfryngau cymdeithasol a meithrin talent ar yr awyr.

Yn y flwyddyn sydd i ddod rwyf am sicrhau pwyslais o'r newydd ar gydweithio ac rwy'n disgwyl i Radio nan Gàidheal barhau i geisio meithrin partneriaethau sy'n sicrhau'r gwerth gorau ar gyfer ei chynulleidfa. Rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu adeiladu ar lwyddiant prosiect arobryn Bliadhna nan Òran, gan sicrhau mwy o fynediad i archif Aeleg gyfoethog y BBC a gwell dealltwriaeth ohoni.

**Ken MacQuarrie, Cyfarwyddwr, BBC Scotland**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd profiad darpariaeth y tri chyfrwng Gaeleg o Etholiad Cyffredinol 2010 yn hysbysu a gwella'r ddarpariaeth o Etholiad Seneddol yr Alban 2011 ar gyfer y gynulleidfa Aeleg.

- Gan adeiladu ar werthfawrogiad y gynulleidfa o fodel Bliadhna nan Òran/ Year of Song, bydd dathlu Diwylliant Ynysoedd yr Alban yn flaenoriaeth olygyddol ar gyfer y gwasanaeth gydol y flwyddyn.

- Gan gydweithio â'r partneriaid MG ALBA, bydd comedi a dychan yn dychwelyd i amserlen Radio nan Gàidheal, gan ddarparu cyfleoedd datblygu ar gyfer doniau ysgrifennu ac ar yr awyr.

- Bydd amserlen Radio nan Gàidheal yn parhau'n hafan i gerddoriaeth Aeleg a thraddodiadol tra hefyd yn cynnig cyfle i gynulleidfaoedd o bob oedran ymgysylltu ag amrywiaeth eang o gerddoriaeth, gan gynnwys cerddoriaeth fyw, mewn amgylchedd Gaeleg sy'n berthnasol iddynt.

# BBC Alba

Mae BBC Alba yn cynnig rhaglenni gwreiddiol unigryw i siaradwyr a dysgwyr Gaeleg sy'n adlewyrchu a chefnogi diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth yr Aeleg.

## Gweledigaeth y Cyfarwyddwr ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Bydd BBC Alba, a ddarperir mewn partneriaeth rhwng y BBC a MG ALBA, yn parhau i adlewyrchu diwylliant Gaeleg traddodiadol a chyfoes. Bydd yn cynnig darpariaeth ffres a newydd ac yn diwallu anghenion siaradwyr Gaeleg a'r rhai sy'n dysgu'r iaith, tra'n ceisio cyrraedd a chysylltu â chynulleidfaoedd newydd drwy raglenni perthnasol sy'n apelio. Fel rhan o bortffolio gwasanaethau BBC Scotland, bydd yn cynnig cynnwys sy'n ddiwylliannol unigryw ac sy'n sicrhau gwerth ychwanegol i gynulleidfaoedd.

Yn y flwyddyn nesaf bydd BBC Alba yn adrodd ar y materion sy'n bwysig i'r gynulleidfa, gyda rhaglenni eang eu hapêl sy'n adlewyrchu bywydau a phrofiadau cymunedau o ddiddordeb ledled yr Alban.

BBC Alba yw'r lle naturiol i ddathlu treftadaeth gerddorol gyfoethog y diwylliant. Bydd digwyddiadau fel Celtic Connections, RockNess, gŵyl gerddoriaeth Blas a'r Mod ymysg uchafbwyntiau 2011/12.

**Ken MacQuarrie, Cyfarwyddwr, BBC Scotland**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd BBC Alba ar gael ar lwyfannau Freeview (Teledu Digidol Daearol) a Chebl yn 2011, gyda'r gwasanaeth yn cael ei ymestyn i gynulleidfaoedd newydd ledled yr Alban.

- Bydd y profiad a enillwyd o ddarlledu Etholiad Cyffredinol y DU 2010 yn rhoi'r sylfaen ar gyfer darlledu Etholiadau Seneddol yr Alban 2011.

- Bydd y gyfres materion cyfoes Ewropeaidd Eòrpa, y gyfres ddogfen Soillse a'r cynllun cyfnewid rhaglenni arloesol, World Indigenous Television Network (WITBN), yn rhoi safbwynt eang i wylwyr ar faterion y byd.

- Byddwn yn rhoi sylw i rygbi Cynghrair Magners a phêl-droed o Uwchgynghrair yr Alban.

- Bydd plant Gaeleg eu hiaith yn cael eu cefnogi drwy gyfleoedd dysgu anffurfiol yn yr amserlen cyn-ysgol reolaidd a chyda chyfresi gwreiddiol fel Dè a-nis? a Gleusta.

# BBC Radio Wales

Gwasanaeth llafar yn bennaf i oedolion yw BBC Radio Wales sy'n cynnig ystod eang o raglenni gan adlewyrchu pynciau llosg, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Fy ngweledigaeth ar gyfer Radio Wales yw sbarduno cynnwys unigryw, grymus sy'n adlewyrchu, dadansoddi a dathlu Cymru a'i phobl. Gyda hinsawdd wleidyddol gynyddol ddatganoledig a llawer yn llai o gyfryngau masnachol yn cael eu cynhyrchu'n lleol, bydd gwerth cyhoeddus, perthnasedd a natur unigryw'r orsaf yn parhau i dyfu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi llwyddo i gryfhau ein darpariaeth newyddiadurol ar Good *Morning Wales, Jamie and Lousie* a'r *Radio Wales Phone-In*, tra'n cyflwyno rhaglen wleidyddol newydd, *Sunday Supplement*. Rydym yn bwriadu parhau i esblygu fel hyn drwy fanteisio ar arbenigedd gohebwyr a newyddiadurwyr arbenigol BBC Wales, gan gynyddu gwreiddioldeb *Good Morning Wales* yn arbennig.

Bydd BBC Radio Wales yn parhau'n rhan ganolog o ddigwyddiadau sy'n dod â'r genedl ynghyd, gyda sylw cynhwysfawr i Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai a Chwpan Rygbi'r Byd ym mis Medi. Bydd yr orsaf yn meithrin doniau Cymreig newydd drwy gerddoriaeth a chomedi, lle'r ydym yn gobeithio cyflwyno fformat digrifwyr newydd. Bydd rhaglenni sy'n helpu cynulleidfaoedd i ddysgu am Gymru yn rhan allweddol o'r ddarpariaeth, gan gynnwys rhaglenni sy'n archwilio hanes Cymru fel rhan o dymor aml-lwyfan BBC Cymru Wales.

**Keith Jones, Cyfarwyddwr, BBC Cymru Wales**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd *Good Morning Wales,* y *Radio Wales Phone-In* a *Good Evening Wales* yn teithio Cymru gan ymgysylltu ag etholwyr Cymru a rhoi'r holl wybodaeth iddynt wythnos cyn Etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai.

- Er y diffyg hawliau sylwebu, bydd gennym ohebwyr yn Seland Newydd yn dilyn hynt a helynt ymgais Cymru i gipio Cwpan Rygbi'r Byd.

- Bydd rhaglenni yn ystod y dydd yn cael eu cryfhau gyda chynnwys gwybodaeth ychwanegol yn rhaglen Roy Noble a bydd ffocws golygyddol cryfach ar gelfyddydau, adloniant a diwylliant Cymru yn nhrydedd awr *Jamie and Louise*. Bydd gan gerddoriaeth fyw fwy o ran mewn rhaglenni yn ystod y dydd, gan adeiladu ar lwyddiant Diwrnod Cerddoriaeth blynyddol Radio Wales.

- Mae'n huchafbwyntiau nodwedd yn cynnwys tymhorau ar Addysg, Cymru Wledig, ynghyd â thymor yn nodi'r deuddeg mis cyntaf ers datgelu mesurau cyllideb y Llywodraeth yn San Steffan. Bydd cyn Brif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan, yn cyflwyno cyfres rymus ar fywyd ar ôl troi'n drigain; a byddwn yn bwrw golwg y tu ôl i'r llen yng nghwmni milwyr ar eu ffordd i Affganistan wrth i ni ddilyn eu hynt a'u helynt yn *Life in a Battalion*.

- Byddwn yn parhau i gryfhau ein deunydd comedi, gan gynnwys comedi sefyllfa newydd gan Ruth Jones a byddwn yn cyflwyno fformat digrifwyr newydd yn 2012.

# BBC Radio Cymru

Gwasanaeth radio llafar a cherddoriaeth i siaradwyr Cymraeg yw Radio Cymru ac mae'n cwmpasu ystod eang o raglenni ac yn adlewyrchu pynciau llosg, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Fy uchelgais yw i Radio Cymru barhau i fod yr orsaf fwyaf poblogaidd ymysg siaradwyr Cymraeg, a pharhau i ddarparu gwasanaethau unigryw o ansawdd uchel i'n cynulleidfaoedd gydag amrywiaeth eang o raglenni sy'n ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg ac sy'n berthnasol iddynt.

Bydd darparu newyddiaduraeth heb ei ail gydol y dydd yn parhau'n flaenoriaeth. Byddwn yn ceisio cynnig cyfran uwch o straeon gwreiddiol o Gymru tra'n parhau i roi sylw i straeon rhyngwladol o safbwynt Cymru.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo a darparu llwyfan ar gyfer cerddoriaeth a diwylliant Cymraeg. Byddwn yn rhoi sylw eang i ddigwyddiadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol; Eisteddfod yr Urdd a digwyddiadau eraill o bwys cenedlaethol.

Rwyf am i Radio Cymru fod yn orsaf sy'n uno siaradwyr Cymraeg ac i'r gwasanaeth adlewyrchu'r materion sy'n bwysig iddynt.

**Keith Jones, Cyfarwyddwr, BBC Cymru Wales**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Byddwn yn rhoi sylw cynhwysfawr i Etholiad Cynulliad Cymru. Bydd ein darpariaeth yn cynnwys taith o gwmpas Cymru. Byddwn yn egluro'r materion a'r themâu i'n cynulleidfaoedd mewn ffordd heriol a difyr.

- Bydd digwyddiadau byw yn cynnwys Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, sy'n dathlu ei phen-blwydd yn 150 oed yn Wrecsam eleni. Byddwn hefyd yn rhoi sylw i ddigwyddiadau eraill o ddiddordeb i'n cynulleidfaoedd, gan gynnwys yr Ŵyl Gerdd Dant; y Sioe Fawr; ac Eisteddfod y ffermwyr Ifanc.

- Bydd Cwpan Rygbi'r Byd yn Seland Newydd yn yr hydref yn rhan bwysig o'n darpariaeth chwaraeon wrth inni ddilyn tîm Cymru. Byddwn hefyd yn dechrau rhoi sylw i'r paratoadau ar gyfer y Gemau Olympaidd yn 2012 ac yn dilyn teithiau rhai cystadleuwyr o Gymru.

- Byddwn yn gweithio gyda'r adran ryngweithiol ar ddull newydd o ddarparu cynnwys Cymraeg a Radio Cymru ar-lein drwy gyflwyno 'rhifynnau'r gwledydd' a chynnyrch radio.

- Byddwn yn parhau i roi llwyfan i gerddoriaeth a thalent newydd Cymraeg. Bydd ein darpariaeth yn cynnwys sesiynau byw ar C2; ein cystadleuaeth i fandiau ifanc a sawl rhaglen gerddoriaeth arbenigol yn ystod y flwyddyn, yn ogystal ag ail gyfres o Cyfle Cothi, sioe dalent Radio Cymru.

- Bydd ein darpariaeth o ansawdd ym maes drama, comedi, rhaglenni nodwedd a dogfen yn fwy dylanwadol nag erioed, a byddwn yn denu mwy o sylw i'n syniadau a'n prosiectau arloesol drwy ganolbwyntio o'r newydd ar hysbysebion a'n sylw yn y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol, tra'n meithrin ein partneriaethau yng nghymunedau Cymru.

# BBC Radio Ulster/Foyle

Gwasanaeth llafar yn bennaf yw Radio Ulster/Foyle sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni ac yn adlewyrchu holl agweddau ar fywyd cyfoes yng Ngogledd Iwerddon, gan roi sylw helaeth i faterion, diddordebau a digwyddiadau lleol gan roi sylw hefyd i ddatblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

## Gweledigaeth y Cyfarwyddwr ar gyfer y gwasanaeth yn 2011/2012

Mae BBC Radio Ulster/Foyle yn parhau i gael ei hystyried fel gorsaf radio 'genedlaethol' Gogledd Iwerddon, ac mae hynny wedi bod yn wir ers dros 30 mlynedd – a drwy adegau anodd yn aml i'r gymuned ehangach. Mae bywyd gwleidyddol a chymdeithasol wedi newid yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'n rhaglenni wedi ceisio adlewyrchu'r datblygiadau hyn.

Mae arloesi ac adnewyddu yn elfennau cyson yn ein gwaith - chwilio am dalent a syniadau newydd a chanfod ffyrdd o adlewyrchu bywyd bob dydd yn well.

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd sylfaenol ein gwasanaeth newyddion a'r gwerth y mae cynulleidfaoedd yn ei roi ar gymryd rhan yn ein rhaglenni drwy ffonio i mewn, darllediadau y tu allan i'r stiwdio a digwyddiadau. Rwyf am sicrhau ein bod yn adeiladu ar y cryfderau hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.

Byddwn yn parhau i ddatblygu fformatau rhaglenni a thalent drwy'n hamserlen a byddwn yn ceisio cynyddu dylanwad ein gwaith, gan nesáu at gynulleidfaoedd a gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau allanol. Byddwn hefyd yn gwella'n darpariaeth chwaraeon ac yn dod â phynciau mawr a digwyddiadau diwylliannol a chymunedol yn fyw i'r holl gynulleidfa.

Bydd yr holl waith yn seiliedig ar ddealltwriaeth dreiddgar o anghenion ein cynulleidfa.

**Peter Johnston, Cyfarwyddwr, BBC Northern Ireland**

## Datblygiadau amlwg yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Byddwn yn rhoi sylw eang i etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon a llywodraeth leol ym mis Mai 2011.
- Byddwn yn cynnal wythnos uchelgeisiol o raglenni fel rhan o Wild Week, gyda nodweddion arbennig, darllediadau y tu allan i'r stiwdio a digwyddiadau.
- Byddwn yn cynyddu nifer y bwletinau Chwaraeon, gan hwyluso mynediad haws i newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am gemau a digwyddiadau lleol.
- Byddwn yn darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau y gall cynulleidfaoedd gymryd rhan ynddynt – gan roi llwyfan i dalent newydd ac enwau adnabyddus a chreu ymdeimlad unigryw o achlysuron y BBC i'n cynulleidfaoedd.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu ac ailwampio ein rhaglenni newyddion, gan adlewyrchu datblygiadau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol a'u heffaith ar gynulleidfaoedd lleol.
- Byddwn yn adolygu effaith newidiadau diweddar i amserlen BBC Radio Foyle fel rhan o'n hymrwymiad i wasanaethu cynulleidfaoedd yn y Gogledd-orllewin.
- Byddwn yn datblygu cymysgedd o raglenni gan fanteisio ar archif rhaglenni lleol y BBC a byddwn yn pwyso a mesur ffyrdd o annog talent, lleisiau a syniadau sy'n adlewyrchu bywyd cyfoes.